

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 376 - 60c
Medi 2019

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Ymlaen i'r
cyfnod nesaf
wedi'r ysgol



Tudalen 2

Cadwyn
Cyfrinachau
Arall



Tudalen 10

Cymuned yn
tynnu at ei
gilydd



Tudalen 13

Eisteddfod lewyrchus yn Llanbed



Enillydd y Goron oedd Martin Huws, Ffynnon Taf, Rhondda ac yn ennill ei ail goron yn yr eisteddfod hon, gyda phlant y ddawns sef disgyblion Ysgol Llanllwni. Yn y llun mae Einir George yn cyflwyno cloc i'r bardd ar ran yr ysgol.



Enillydd Cadair y bardd ifanc dan 25 oed oedd Twm Ebbsworth, Brynamlwg, Llanwnnen.

Ela Mablen Griffiths-Jones, Fronddu, Cwrtnwydd a enillodd y "Rose Bowl" Sialens Barhaol am y cystadleuydd mwyaf addawol o dan 12 oed yn yr Adran Gerdd ar y dydd Llun.

Annie Thomas o Bencarreg oedd y cystadleuydd mwyaf addawol o dan 12 oed yn yr Adran Gerdd ac yn derbyn y "Rose Bowl" ar y dydd Sadwrn.



Canlyniadau gwyeh!



Gwên o glust i glust yn Ysgol Bro Pedr – Canlyniadau Safon Uwch
O'r chwith: Catrin Rosser; Max Parry; Sara Jarman; Cerys Pollock;
Cyffin Thomas; Osian Jones; Grace Page; Iestyn Evans; Ellie Waller; Amy
Chapman-Parsons; Iestyn Edwards ac Aoife Wooding.



Yn falch iawn o'u canlyniadau TGAU yn Ysgol Bro Pedr mae:
Rhes flaen - Hanna Davies, Elan Jones, Nia Davies, Aisvarya Sridar;
Rhes ganol - Aoife Lloyd Jones, Beca Roberts, Elin Williams, Daniel Jones,
Matthew Marchant; Rhes gefn - Hubert Michalski, Kyle Hughes a James
Bouvet.

Carnifal Llambled



Y maer a'r faeres, y Cyng. Rob a Delyth Phillips yn coronu Brenhines
y Carnifal, Summer Hawden. Ei chynorthwywyr, o'r chwith, oedd Hari
Jenkins, Amy Matthews, Rhun Davies a Tia Gilbert.



Uchafbwyntiau'r mis ar
clonc360.cymru

● CAU CANOLFAN PRAWF GYRRU LLANBED

Y dyddiad olaf ar
gyfer sefyll prawf
gyrru ymarferol yn
Llanbedd oedd yr
22ain Awst 2019. Ble
fydd ein pobl ifanc
ni yn gorfod mynd
i sefyll eu prawf
gyrru ymarferol yn y
dyfodol?



Canolfan Duais, Llanbedd. Llun: Gohwg360

● BLAS AR WYL FWYD LLANBED

Aeth pedwar cymeriad
ifanc lleol rownd y
stondinau yng Ngŵyl
Fwyd Llanbedd yn chwilio
am y bwydydd gorau
ac yn cloncan gyda
rhai cynhyrchwyr a
chwsmeriaid. Tybed pwy
enillodd 'barn y bobol' am
y stondin orau? Mae'r fideo
gan Martha, Ifan, Elen a
Sion ar clonc360...



● GWYL Y GLANIAD CYNTAF YN LLANBED

Dathlwyd Gŵyl y Glaniad yn Llanbedd am y tro cyntaf eleni.
Caiff Gŵyl y Glaniad ei ddathlu yn flynyddol ar Orffennaf yr
28ain, sef y dyddiad y glaniodd y Cymry cyntaf ym Mhorth
Madryn nôl ym 1865.



Teflu o Batagonia ar ymweliad â Llanbedd yn 2018.

● CATRIN FINCH YN LLANBED

Roedd gan Neuadd
Gelfyddydau'r Brifysgol
yn Llanbedd gynulleidfa
lawm o bron i bedwar
cant o garedigion
cerddorol a fu'n
croesawu Catrin Finch
a'r chwaraewr kora
Senegalese, Seckou
Keita, i Llanbedd ym mis
Gorffennaf.



James Robinson (trelynedd),
Catrin Finch a Seckou Keita.

Ffili aros tan y papur nesa'?
- clonc360.cymru

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Medi a Hydref Elaine Davies, Pen-y-nant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards a Lois Williams.

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion ac Yvonne Davies, Afallon, Drefach 480590

Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan	Alwen Edwards, Awel Teifi	421001
Cwmann	Sian Roberts-Jones, Croesor	423313
Cwmsychpant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambled	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Eirlys Owen, Cwmeri	481041
Llanwnnen	Elin Thomas, 1 Teras Sycamor	480239
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder	480683
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambled	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llambled.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanyysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Gwerin gwlad a phrifwyl bob

Mae hi'r un peth bob blwyddyn: mae diwedd Awst yn dod, rydw i yng nghanol bwrlwm Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan, ac mae sgrifennu'r golofn hon i Clonc yn un o'r pethe ar dop fy 'to do list'. Rydw i wastad wedi treial meddwl am bwnc arall i sgrifennu amdano, ond y gwir yw, rydw i yn y mŵd eisteddfodol, ac rydw i'n teimlo'n angerddol am yr eisteddfod hon, felly ymddiheuriadau i chi bobol wrth-eisteddfodol (os oes y ffasiwn bobol i gael!), fe gewch chi ddos arall o drafod diwylliant!

Cafwyd tridiau llawn eto eleni. Llanw a thrai mewn gwahanol gystadlaethau – fel sydd i'w ddisgwyl, oherwydd amhosib fydd denu niferoedd swmpus i bob un gystadleuaeth. Rydw i hefyd yn fwy nac unwaith wedi sôn am ddoethineb dewis llywyddion. Yn blentyn, cyfle i fynd mas i gael te a chlonec ac ymweld â'r tŷ bach neu'r celf a chreffft fydd cyfnod araith y llywydd. Bellach, mae areithiau'r llywyddion yn rhywbeth rydw i eisïau gwrandio arny'n nhw – efallai oherwydd fy mod i'n dueddol o'u hadnabod nhw p'run bynnag, ac yn arwydd o barch i'r rhai y mae'r Eisteddfod yn eu hanrhydeddu. Chefais i mo'n siomi eto eleni – Meirir Ebbsworth, merch ddawnus leol, yn ddi-ffws ac yn ddi-dwyll; Elsi Jones, gwraig ddiwylliedig o ucheldir Llanddewi Brefi sydd wedi dod i fyw i dref Llambled ers ychydig flynyddoedd; a'r dihafal Eifion Williams, un o fois Williams Bach, Crown Stores.

Wnes i mo'u hamseru nhw, ond rwy'n eitha saff i ddweud taw Eifion siaradodd hiraf ... ac eto i gyd, gallwn i fod wedi gwrandio arno am awr arall yn hel atgofion ac yn adrodd straeon mor rhwydd. Mae'r stori am Sammy yn un wnaeth fy nhiclo i'n ofnadwy ... pan welwch chi Eifion nesa', holwch iddo adrodd yr hanes; mae'n stori dda, ac mae Eifion yn storiwr penigamp!

Gwerin gwlad fel hyn sy'n haeddu cael eu hanrhydeddu, a diolch amdany'n nhw. Cloncen

Gŵyl Fwyd



Aeth gwobr y Stodin Orau yng Ngŵyl Fwyd Llanbed i fusnes lleol 'Y Becws' yn Llanbed a derbyniodd Owen Jones a'i ferched Erica a Jessica y wobwr gan Patrick Gee, llywydd yr ŵyl a'r Cyng. Rob Phillips, maer a chadeirydd y pwyllgor.

FUW
Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.
Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.
Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llambled
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556
www.fuwinsurance.co.uk

DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services
Gas/LPG & Oil Services
Renewables ■ Installation
Maintenance ■ Breakdowns
Boiler Servicing ■ Sprinklers
07969 289679
doughtyplumbing@gmail.com

LKitchens Ltd
CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR
SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257
www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

E.JONES
PLUMBING & HEATING LTD
01570 480 108
07811 701 857
office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk



MEDI

- 10 Cangen Llanybydder o Gymdeithas Diabetes Cymru yn cynnal cyfarfod yn Festri Aberduar am 7.30y.h. Siaradwr gwadd – Chris Doughty Parafeddyg. Mae'r cyfarfod yn agored i bawb.
- 10 Cyfarfod cyntaf Rali Llanwenog 2020 yn Ysgol Dyffryn Cledlyn, Drefach am 8.00y.h. Agored i bawb.
- 14 Ffair Ram ar gae pentref Cwmann.
- 14-15 Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol C.Ff.I. Cymru yn Aberystwyth.
- 15 Sul Pawb Ynghyd yng Nghapel y Groes am 3.00yp. Croeso cynnes i bawb.
- 22 Cwrdd Diolchgarwch Ebeneser, Llangybi am 2:00y.p. a'r Parch Goronwy Evans, Llambled yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.
- 25 Cwrdd Diolchgarwch Capel Alltyblaca yng ngofal Dafydd Iwan.
- 28 Cyngerdd Dathlu Côr Cardi-Gân yn 20 oed yn Theatr Felinfach yng nghwmni Rhys Meirion ac Aled Wyn Davies.
- 30 Noson agoriadol Merched y Wawr Llanybydder yng nghwmni Rhiannon Lewis.
- 30 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa, Llambled am 7.00y.h.

HYDREF

- 1 Cwrdd Diolchgarwch Capel Brynteg am 7.00y.h. Y Parch. Densil Morgan.
- 2 Cwrdd Diolchgarwch Capel Maesyffynnon, Llangybi am 2:00y.p. Pregethir gan y Parch Andrew Lenny, Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb.
- 3 Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd am 7.00y.h. Pregethir gan Parch Aled Lewis, Tregaron.
- 4 Noson yng nghwmni Ben Lake, AS am 7.30y.h. yn Festri Capel Pantydefaid, Prengwyn. Mynediad am ddim a chroeso i bawb.
- 7 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7.00y.h.
- 9 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parc-y-rhos am 7.00yh gyda'r Fon Beti Griffiths.
- 12 Noson arbennig yng nghwmni Cwlwm, Delwyn Sion ac Ifan Gruffydd yn Ffreutur Coleg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant am 7.30 £15 yn cynnwys lluniaeth ysgafn. Tocynnau gan Bwyllgor y Gronfa. Ann Morgan 07791 966122 neu Carys Lloyd Jones 07976 645957.
- 17 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.
- 18 Noson yng nghwmni yr Athro Mererid Hopwood yn Festri Pantyfedaid, Prengwyn am 7.30y.h. Mynediad am ddim. Noson agored a chroeso cynnes i bawb.
- 20 Oedfa Ennyd Gobaith yn Eglwys San Pedr, Llambled am 2.30y.p.
- 26 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint.
- 26 Cymanfa'r Cynhaef gyda Bois y Gilfach yn Eglwys St Tysul, Llandysul am 7.30y.h. Elw at gronfa trwsio'r organ bib ac elusen Bois y Gilfach. Tocyn £10 ar gael o Siop Ffab neu o'r Ficerdy 01559 363874.
- 28 Merched y Wawr Llanybydder yn ymweld â Llyfrgell Llambled a swper yn y Shapla.
- 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.

TACHWEDD

- 2 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
- 2 Teilwng yw'r Oen yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.
- 16 John ac Alun a Clive Edwards yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint.
- 25-26 Ffair Aeaf ar faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd.
- 30 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Aston Hall, Wrecsam.

RHAGFYR

- 24 Gwasanaeth Garolau yn Hen Gapel Llwynrhydowen am 9.00y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 25 Cwrdd Undebol yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant am 9.00y.b. Croeso cynnes i bawb.

Wedi meddwl hysbysebu
yn eich papur bro?
Ceir prisiau rhesymol
iawn
gan ddechrau gydag
hysbyseb bach yn

£12 yn unig,

a dim ond £72 am ddeg
ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Peiriannydd Gwres Canolog
Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757
Eboost: dandrewj@icloud.com

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Pentrebach

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu Roy Thomas, Llwynfallen yn eu colled a'u hiraeth amdano.

Diolch

Dymuna David, Margaret, Ffion a Meleri, teulu y diweddar Lizzie Anne Jones, gynt o Penllain, Llanwnnen ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, mam-gu a hen-fam-gu annwyl iawn. Diolchwn am y rhoddion hael tuag at Ffrindiau Hafandeg, lle y treuliodd ei phum mlynedd olaf. Diolch i staff Hafandeg am eu gofal diflino ar hyd yr amser ac yn enwedig yn ystod wythnos ddiwethaf ei bywyd. Diolch i'r Parch. Cen Llwyd am ei wasanaeth teimladwy, hefyd i'r

Parch. Kevin Davies a'r Parch. Emyr Gwyn Evans am ei gynorthwyo yn y capel ac ar lan y bedd. Diolch i Mrs Ceinwen Roach am ei gwasanaeth wrth yr organ a diolch i Mrs Lynne Young a Mrs Jennie Davies am roi blodau yn y capel. Diolch hefyd i'r archgludwyr sef Mr Haydn Richards, Mr David Williams, Mr Mark Lightburn a Mr Dave Morgan. Diolch yn arbennig i gwmni Gwilym Price am eu trefniadau trylwyr ac urddasol.

Dymuna teulu y diweddar Roy Thomas, Llwynfallen ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad boed yn gardiau, negeson ffôn, blodau neu roddion a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth. Rhoddwyd cyfraniad gan y teulu agos tuag at Ymchwil Alzheimer.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd
yn cytuno ag unrhyw farn
yn y papur hwn.



Ariennir yn
rhannol gan
**Lywodraeth
Cymru**

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

**Masnachwyr-coed, ffensio
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau**

Diolch yn fawr
i bawb sydd wedi
ymaelodi gyda
Chlwb Clonc
dros yr haf.
Gwerthfawrogwn
eich cefnogaeth yn
fawr iawn.

Rhifyn Hydref


yn y Siopau

3 Hydref

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn

23 Medi

Ysgol Bro Pedr – Campws Iau



Daeth cryn lwyddiant i ddau ddisgybl o'r ysgol ym Mhencampwriaethau Sirol Dyfed a Bro Morgannwg, sef Cai Allan a Hugo Douglas, Cai yn ennill y naid hir a Hugo yn dod yn ail yn y 100 metr. Roedd y ddau hefyd yn aelodau o'r tîm cyfnewid buddugol. Llongyfarchiadau mawr i chi fechgyn.



Derbyniodd disgyblion o'r ysgol nifer helaeth o wobrau am wneud gwaith Celf a Chrefft yn Sioe Llambod eleni. Yn ogystal â'r holl wobrau, fe wnaeth tri disgybl dderbyn cwpanau hyfryd yn wobwr arbennig am eu gwaith sef Joshua bl. 4, Maisie bl. 2 a Stanley o'r Meithrin. Gwych iawn, blant.



Tŷ Pedr oedd yn fuddugol ym Mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen a'r Adran Iau yn Ysgol Bro Pedr – da iawn chi.



Cynhaliwyd diwrnod gwisg ein hunain er mwyn codi arian at Macmillan a diolch i bawb am eu cyfraniadau hael. Llongyfarchiadau hefyd i bawb yn Ysgol Bro Pedr am fod yn un o'r ysgolion cyntaf yng Ngheredigion i dderbyn gwobr arian y Siarter Iaith. Diolch yn fawr iawn i'r staff, disgyblion a'r Pwyllgor Cymreictod am eu hymroddiad a'u gwaith caled.



Llongyfarchiadau hefyd i Cai Allan a Cerys Angharad Jones ar ennill Mabolgampwr a Mabolgampwraig y flwyddyn i'r disgyblion ym mlwyddyn 6 â'r marciau uchaf mewn cystadlaethau unigol.



Gwnaeth nifer o rieni Ysgol Bro Pedr ymroi i gwblhau cwrs i ddysgu'r Gymraeg dan adain clwb CIT Prifysgol Aberystwyth – tipyn o gamp. Diolch yn fawr iawn i Rhiannon am hyfforddi ac i Lowri am gydlyn. Gobeithiwn yn fawr y bydd y gwersi yn parhau.



Pleser o'r mwyaf oedd gwrando a gweld perfformiadau Charlotte, Deri, Tomos ac Alma yn rhan o gôr a cherddorfa'r sir yng nghyngerdd Proms Ceredigion yn ddiweddar a diolch yn fawr i'r athrawon teithiol sydd wedi bod yn eu hyfforddi.

Cafwyd triapiau i amryw lefydd ddiwedd y tymor a chafwyd llawer o hwyl wrth fwynhau ymysg ffrindiau ar y traeth yn Aberporth, yn Fferm Folly ac yn Dan yr Ogof. Diolch i bawb a fu'n trefnu ac yn cynorthwyo.

Yn ystod y misoedd diwethaf treuliodd dwy aelod o staff gyfnodau yn yr ysbyty sef Mrs Mary Davies a Mrs Donna Davies a dymunwn wellhad llwyr iddynt. Mae Donna wedi dychwelyd atom ar ddiwedd y tymor a hyfryd yw clywed bod Mary ar wellhad hefyd ac edrychwn ymlaen at gael ei chroesawu yn ôl i'n plith. Hoffwn ddiolch yn fawr i Mrs Angela Davies am ei gwaith yn y swyddfa yn ystod y misoedd diwethaf - gwerthfawrogn hyn yn fawr.

Gyda thristwch y gwnaethom ffarfelio â nifer o staff ar ddiwedd y tymor. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Mrs Nerys Evans, Mrs Louise Griffiths, Mrs Carol Davies, Mrs Eleri Jones a Miss Linda Cutler am eu cyfraniadau gwerthfawr a'u hymroddiad i'r ysgol a dymuno'n dda iddynt oll ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn gweld eich eisiau yn fawr.

Dymuniadau gorau i ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd yn symud i'r campws hŷn ym mis Medi; fe fyddwn fel staff yn parhau i ddilyn eich datblygiad â diddordeb mawr



Llongyfarchiadau i holl dimau pêl-droed yr ysgol ar eu llwyddiant yn nhwramaint Carreg Hirfaen - bechgyn 5 a 6 yn ennill, bechgyn 3 a 4 yn ennill a'r merched yn dod yn ail. Diolch i'r staff a fu'n hyfforddi ac i Ysgol Carreg Hirfaen am drefnu. Daeth timau pêl-droed yr ysgol hefyd i'r brig mewn twrnamaint pêl-droed a drefnwyd i ysgolion y cylch ac a gynhaliwyd ym Mro Pedr a gwnaeth timau rownderi'r ysgol yn dda iawn hefyd.



Llongyfarchiadau mawr i Sara Jones, disgybl ym mlwyddyn 6, am dderbyn Cwpan Pencampwraig Cystadleuaeth Prydain gan Gemma Cutter, Swyddog Perfformiad Prydain. Cafodd ei dewis gan banel o feirniaid yn dilyn ei llwyddiant yn cynrychioli Cymru ym mhencampwriaethau Athletau Prydain yn ddiweddar lle derbyniodd fedal aur ac arian am daflu pêl a javelin. Arbennig o dda, Sara.



Derbyniodd Dannielle Murray Bl. 6 Gwpan Cyfeillgarwch yn rhoddedig gan Mr. a Mrs. Huw Jenkins (cyn bennaeth yr ysgol) am ei charedigrwydd a gofal tuag at eraill yn ystod ei chyfnod yn yr ysgol.

Llwyddiant TGAU

Roedd canlyniadau TGAU Ysgol Bro Pedr yn wych eleni a dywedodd Jane Wyn, Pennaeth, bod y disgyblion wedi dod â chlod i'r Ysgol.

Gyda'r canran llwyddo yn 95% - roedd un ym mhob pump disgybl wedi derbyn o leiaf 5 gradd A*/A.

"Rydym yn falch iawn o llwyddiant pob disgybl, ac rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol," dywed Mrs Wyn.

"Mae llwyddiant y disgyblion yn adlewyrchu yr holl waith caled, safonau addysgu uchel yr Ysgol a chymorth gwerthfawr y rhieni a'r Llywodraethwyr."

Dyma rai o'r perfformiadau

gorau: Catrin Schroder - 12 A*/A; Milosz Zgorski - 9 A*/A, 2 B; Lauren Hill - 9 A*/A, 2 B; Aaron McKay - 9 A*/A, 3 B; Aisvarya Sridar - 9 A*/A, 2 B, i enwi ond rhai o'r disgyblion.

Safon Uwch

Roedd yna ddathlu mawr yn Ysgol Bro Pedr ddiwrnod y canlyniadau Safon Uwch eleni gyda 98% o'r graddau a ddyfarnwyd i ddisgyblion oedd yn astudio dau neu'n fwy o bynciau Safon Uwch yn raddau A* - E; 79% o'r graddau a ddyfarnwyd yn A* - C; 56.8% o'r graddau a ddyfarnwyd yn A* - B a 34% o'r graddau a ddyfarnwyd yn A neu'n A*.

Derbyniwyd rhai o'r canlyniadau gorau gan: Sara Jarman - 3A*, 2A ac 1B; Amy Chapman-Parsons - 3A*, 1A; Peter Brookes - 3A*, 1A; Grace Page - 2A*, 2A; Cerys Pollock - 3A*, 1C; Cyffin Thomas - 4A; Max Parry - 4A, i enwi ond rhai o'r disgyblion.

Bu bron i bob disgybl gael eu derbyn yn eu dewis cyntaf o Brifysgol a dywedodd Jane Wyn, Pennaeth, "Mae hyn yn newyddion arbennig, yn enwedig gan ystyried natur gystadleuol dros ben cyrsiau'r Prifysgolion Grŵp Russell. Fel Ysgol, rydym yn gwneud ein gorau glas i gefnogi ein disgyblion trwy gydol y broses UCAS ac rydym yn cynnig cymorth un-i-un er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gwneud y dewisiadau gorau posibl. Rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant ein disgyblion eleni eto. Mae llwyddiant ein pobl ifanc yn adlewyrchu eu gwaith caled nhw, ymroddiad yr athrawon a chefnogaeth eu teuluoedd. Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddimuno pob llwyddiant i'r disgyblion yn y bennod nesaf o'u bywydau, boed hynny yn y byd gwaith neu'r Brifysgol. Fel Ysgol, ein dymuniad ni yn Ysgol Bro Pedr yw ein bod wedi sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau i lwyddo mewn byd cystadleuol tu hwnt".

Cwmann



Sara Elan, Araul, Cwmann yn cipio tarian y cerddor gorau dan 19 oed yn Eisteddfod Castell Newydd Emlyn yn ddiweddar. Da iawn ti.

6 Medi 2019 am 7yh
yn Neuadd Sant Iago, Cwmann

Cyngerdd Mawreddog

gyda Ellen Williams, Caerdydd,
Kees Huysmans, Llanbed,
Plant Ysgol Carreg Hirfaen
a Chôr Meibion Cwmann a'r Cylch.

Llywydd y Noson
Y Bon Twynog Davies B.Sc
Fronolau, Pentre-bach.

Tocyn yn £8 gyda'r elw yn mynd tuag at Cymorth Cristnogol a'r Côr.

Llanybydder

Cymdogion yn dathlu 18 oed a 80 oed

Dathlodd Nia Haf Thomas, Llys Neuadd ei phen-blwydd yn 18 oed yn ystod yr haf. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r dathlu.

Yn ystod mis Awst fe ddathlodd Huw Evans, Coedparc ei ben-blwydd yntau yn 80 oed. Gobeithio Huw eich bod wedi joio'r dathliad a iechyd da eto am flynyddoedd lawer.

Diolchiadau

Dymuna Eirwyn a Gwenda, Llyscerdd ddiolch i bawb am y rhoddion, cardiau a galwadau a gawsant ar achlysur eu Priodas Aur. Rhoddwyd cyfraniad tuag at Ymchwil Cancer y Fron Cymru. Diolch i bawb am eu haelioni.

Dymuna Merfyn, 10 Rhydybont ddiolch yn fawr iawn i'w berthnasau, ei gymdogion a'i holl ffrindiau am y cardiau, galwadau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn ystod ei salwch yn ddiweddar.

Dymuna Hugh, Coedparc ddiolch am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed ar 11 Awst. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Nia, Llysneuadd ddiolch o galon am "...yr holl gardiau, anrhegion ac arian gefais ar achlysur fy mhen-blwydd yn ystod mis Gorffennaf. Diolch o galon."

Dymuniad Betty Jones, Gerynant yw diolch yn ddiffuant iawn i'w theulu am bob gofal a charedigrwydd a dderbyniodd trwy gyfnod ei salwch gartef ac am yr ymweliadau dyddiol â'r ysbyty ac i bawb sydd wedi bod mor garedig mewn llawer ffordd ar hyd yr wythnosau yma. Diolch eto.

Dymuna Ogwen ac Aerwyn Evans, 2 Heol-y-Gaer, Llanybydder a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ddiweddar wrth iddynt golli chwaer, chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl, sef Edith Davies gynt o Bro Einon, Llanybydder.

Dymuna Irene, Heol-y-Gaer ddatgan ei diolch a'i gwerthfawrogiad am yr holl garedigrwydd a'r consyrn a dderbyniodd yn ystod ei hanhwylder yn ddiweddar.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i ti Gareth Jones, 7 Bro Einon ar achlysur dy ben-blwydd yn 65 oed ar y 6ed o Fedi. Gobeithio cei di ddiwrnod wrth dy fodd a mwynha'r dathlu. Pen-blwydd hapus wrth dy ffrindiau.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Tiffany James-Davies o Lanybydder am basio Step 1 ar y piano gydag anrhydedd o dan nawdd y London College of Music. Da iawn ti.

Diffoddwr Tân



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Siôn Evans, Dwylan am fod yn llwyddiannus wrth gwblhau ei gwrs sylfaenol yn Ddiffoddwr Tân llawn amser. Mae Siôn yn ymuno â gwyllfa Gorsaf Dân Aberystwyth. Nid yn unig gwnaeth Siôn fod yn llwyddiannus ond fe gafodd ei gyflwyno â'r fwyell arian, sef tlws i'r myfyriwr gorau ar ei gwrs. Da iawn ti, Siôn.

Yn y llun gyda Siôn mae Rheolwr Ymateb Brys Ceredigion, Emyr Jones.

Cymdeithas Diabetes

Cynhelir cyfarfod Cangen Llanybydder o Gymdeithas Diabetes Cymru yn Festri Aberduar nos Fawrth, Medi 10fed am 7.30y.h. Y siaradwr gwadd fydd Chris Doughty, Parafeddyg. Bydd y cyfarfod yn agored i bawb.

Lleisiau'r Werin

Nos Wener, Gorffennaf 5ed cynhaliodd y côr noson o adloniant yn y Llew Du, Llanybydder i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020. Yr oedd y noson yn llawn hwyl a sbri gyda'r côr yn canu amrywiol ganeuon a chafwyd cystadlaethau direidus ar ffurf eisteddfod fach i ddiddori'r gynulleidfa. Diolch yn fawr iawn i Glwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni am ddod i gymryd rhan ac am fod yn gystadleuwyr brwd. Cafodd pawb a ddaeth ynghyd fwynhad mawr yn gwrandao ar gystadlaethau canu dan 6, meimio i gerddoriaeth, stori a sain a garglo tôn Dau Gi Bach! Diolch yn arbennig i Owain Davies am gadw trefn ar bawb ac i Pete Ebbsworth am fod yn feirniad penigamp. Roedd hiwmor y ddau yma yn ychwanegu llawer at naws y noson. Diolch i bawb hefyd a ddaeth i gefnogi gan sicrhau ein bod wedi codi dros £800 at gronfa Eisteddfod Ceredigion 2020.

SiAraDwyR NEWYdd!

COLOFN Y DYSCWYR gan Gwyneth Davies

Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r tywydd braf yn ystod yr haf. Aethoch chi i'r Eisteddfod Genedlaethol tybed?

Dyma ddarn o waith gan Michael Davies o Dalgarreg.

Golygfa

Golygfa! Beth yw golygfa? Golygfa yw'r hyn rydych chi'n gweld wrth agor ein llygaid. Weithiau, mae'r olygfa yn brydferth e.e y mynyddoedd, y cymoedd, y coedwigoedd, y dolydd neu'r môr. Weithiau mae'n hyll e.e sinc y gegin gyda llestri brwnt, y ganolfan ail-gylchu, y gwely heb ei wneud, traffyrdd, adeiladau modern neu'r tyrbinau gwynt.

Mae'n well gen i gefn gwlad yn hytrach na threfi neu ddinasoedd. Ro'n i'n arfer gweithio yn Llundain. Doeddwn i ddim yn mwynhau ond roedd y cyflog yn rhesymol! Mae cefn gwlad yn hardd drwy'r flwyddyn. Yn y Gwanwyn, mae tyfiant newydd a lliwiau ffres. Yn yr Haf, mae blodau gwyllt a thywydd cynnes (os rydych chi'n lwcus). Yn yr Hydref, mae rhew yn gynnar yn y bore a'r dail yn newid eu lliw. Yn y Gaeaf, mae'r aer yn oer braf a'r tir yn brydferth iawn os oes yna eira a rhew. Mae golygfeydd yn hyfryd ac yn rhoi profiadau gwahanol i ni bob dydd!



Geirfa

golygfa – scenery
tyfiant - growth
môr - sea
prydferth – beautiful
rhesymol - reasonable
llestri - crockery
cymoedd – valleys
tywydd - weather
dinasoedd - cities
hyll – ugly
Gwanwyn - Spring
mwynhau - enjoy
rhew - frost
Hydref- Autumn
braf - fine
eira - snow
profiadau - experiences

coedwigoedd - forests
llygaid – eyes
lliwiau - colours
cegin - kitchen
mynyddoedd – mountains
cefn gwlad - countryside
trefi - towns
dolydd – meadow
blwyddyn - year
Llundain - London
traffyrdd - motorways
Haf - Summer
aer - air
cynnes - warm
Gaeaf - Winter
cyflog - salary

Gwerthir CLONC yn

..... y siopau canlynol:

Aeron Booksellers, Aberaeron
Awen Teifi, Aberteifi
Co-op, Llambled
Cyfoes, Rhydaman
Eryl Jones, Llambled
Garej Central, Llanwnnen
Garej Checkpoint, Harford
Garej Heol y Gogledd, Llambled
Ffab, Llandysul
Jones Bros, Llambled
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Mark Lane, Llambled
Medical Hall, Tregaron
Premier Siop y Gymuned, Llambled
Siop y Bont, Llanybydder
Siop y Smotyn Du, Llambled
Siop y Pethe, Aberystwyth
Siop y Pentan, Caerfyrddin
Swyddfa Bost, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
W D Lewis a'i Fab, Pumsaint

Llanbedr Pont Steffan

Chwaraeon

Yn ystod mis Gorffennaf bu Beca Roberts yn cystadlu yn y Naid Driphlyg ym Mhencampwriaeth Ysgolion Prydain yn Abertawe gan neidio 11.19m [23cm ymhellach na'i gorau blaenorol] gan orffen yn 4ydd. Da iawn ti.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Nelian a Meirion, Brongest ar ddathlu eu Priodas Arian ddiwedd mis Gorffennaf. Ymlaen i'r Aur nawr!

Diolch

Dymuna Angharad ac Alex, South Lodge ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau lu, y rhoddion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch, Cara Wyn yn ddiweddar. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

Cymdeithas Hanes

Bydd tymor newydd y Gymdeithas Hanes yn dechrau nos Fawrth, Medi'r 17eg am 7.30yh yn yr Hen Neuadd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Y siaradwr gwadd fydd Mr John Phillips a bydd yn dangos ffilmiau a gynhyrchwyd gan ei wraig, Bethan, ar gyfer cyfresi teledu.

Mae'n adeg ail-ymaelodi a'r pris yn £10 am y flwyddyn. Croesewir aelodau newydd atom, ond os nad ydych am ymaelodi, mae'n bosib dod i ambell ddarlith am £2 y noson. Croeso cynnes i bawb.

Bedyddwyr

Ar ddiwrnod braf aeth aelodau eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi ar eu taith flynyddol ac eleni ymwelwyd ag ardal newydd i nifer ohonom sef Bro Morgannwg. Profiad hyfryd oedd cynnal oedfa yn Eglwys Annibynol Bethesda'r Fro ym mhentref Sain Tathan, a chael cwmni yr Athro E. Wyn James o Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, arbenigwr ar hanes yr emyn a phriod y Prifardd Christine, cyn Archdderwydd a Chofiadur presennol Gorsedd y Beirdd. Croesawyd Wyn yn gynnes gan ein gweinidog y Parchedig Densil Morgan a diolchodd iddo am roi o'i amser i ymuno â ni.

Diddorol iawn oedd gwrandao arno yn sôn am ddau o emynwyr mawr y fro sef John Williams, Sain Tathan, awdur yr emyn cyfarwydd 'Pa feddwl, pa 'madrodd, pa ddawn', a'i gyfaill Thomas William, awdur 'O'th flaen o Dduw rwy'n dyfod' ac 'Y Gŵr wrth ffynnon Jacob.' Cymerwyd at rannau arweiniol yr oedfa gan Alun a Delyth (Noddfa) a chyhoeddwyd yr emynau gan Sulwen (Seion), Gwen (Bethel) a Mair (Brynhafod). Hyfryd oedd canu'r emynau hynny gydag Ann yn cyfeilio a phrofi naws y capel lle bu'r

ddau emynydd yn addoli a Thomas William yn weinidog.

Aethom ymlaen wedyn i gapel Presbyteriaidd Tre-hill ym mhentref Sain Nicolas a mwynhau picnic yn y festri a chwiorydd yr Eglwys, chwarae teg iddynt, wedi paratoi paned i ni. Wedyn, profiad arbennig iawn oedd gwrandao ar weinidog yr Eglwys, y Parchedig John Haywood Thomas, yn siarad mor huawdl ac yntau yn 93 oed. Yna, aeth yr Athro Wyn James i ychwanegu at ei sgwrs ac esbonio mwy am hanes amrywiol a diddorol crefydd ym Mro Morgannwg. Ymlaen â ni wedyn i dreulio ychydig amser yn ymlacio ym Mhorthcawl a'r haul yn gwenu'n braf a gorffen gyda swper ardderchog yn Y Bridge, Llangennech.

Diolchodd Mair, cadeirydd y cylch i'n gweinidog am drefnu mor helaeth ar ein cyfer, i Ann am ei chyfraniad hithau, i Dewi am fod yn gyfrifol am y bws a'r bwyd yn ôl yr arfer, ac yn olaf ond nid y lleiaf i Gerwyn, ein gyrrwr medrus, am ein cludo'n ddiogel ar hyd ffyrdd dieithr y Fro. Roedd pawb yn gytun ein bod wedi cael diwrnod addysgiadol a phleserus iawn yng nghwmni'n gilydd wrth ymweld â dau gapel hardd a hanesyddol a'r tywydd braf yn goron ar y cyfan.

Oedfa Ennyd Gobaith

Cynhelir Oedfa Ennyd Gobaith am y drydedd flwyddyn yn olynol yn Eglwys San Pedr ar Sul 20 Hydref am 2.30. Elusen yw Ennyd Gobaith sy'n cynnig cymorth trwy oedfaon gweddi i bawb sydd wedi eu heffeithio gan ganer, o gleifion a gofalwyr i feddygon ac arbenigwyr proffesiynol yn y maes. Yn cymryd rhan yn yr oedfa bydd aelodau'r eglwysi lleol ynghyd â Chôr Ysgol Bro Pedr, Georgina Cornock, y delynnoes a'r unawdydd Trystan Bryn. Hefyd pleser eleni bydd croesawu Fiona Castle O.B.E priod y ddiweddar Roy Castle, y diddanwr a fu farw 25 mlynedd yn ôl o ganer yr ysgyfaint. Mae wedi cefnogi'r elusen o'r dechrau ac mae'n agored iawn am ei ffydd ac am y cryfder a roddodd iddi yn ystod salwch ei gŵr.

Estynnir croeso cynnes iawn i bawb ddod ynghyd i Eglwys San Pedr ar Sul 20 Hydref am 2.30 ac i fwynhau paned yn dilyn yr oedfa.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Derek a Janet, Haulfryn ar golli brawd yn ddiweddar. Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y misoedd diwethaf.

Adran ac Aelwyd yr Urdd

Llongyfarchiadau cynnes i aelodau Adran ac Aelwyd yr Urdd ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Llambod.

Daeth parti unsain yr Adran i'r brig dan arweiniad Rhiannon a Lois yn cyfeilio a bu grŵp llefaru'r Aelwyd dan hyfforddiant Elin hefyd yn fuddugol.

Diolch yn fawr i'r aelodau am fod mor barod i gymryd rhan ac i Rhiannon, Elin a Lois am roi o'u hamser hwythau. Mae dyled yr aelodau yn fawr iddynt.

Bydd cyfarfodydd yr Adran a'r Aelwyd yn ail ddechrau ym mis Hydref - manylion pellach i ddod.

Ysgol Sul Noddfa

Yn dilyn seibiant haeddiannol yn ystod gwyliau'r haf bydd Ysgol Sul Noddfa yn ail ddechrau nos Wener 6 Medi am 4 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd o 4 oed i fyny. Bydd yr aelodau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn wythnosol ac yn mwynhau darllen storïau beiblaidd, canu, actio a llawer mwy.

Os am fanylion pellach, plis cysylltwch â Janet neu Llinos.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Kate Edgell o Lanbed am basio Step 1 ar y piano gydag anrhydedd o dan nawdd y

London College of Music. Cafodd Kate 98% yn yr arholiad. Arbennig yn wir.

Grŵp Amaethyddol Llanbed

Cynhaliwyd Trip Gwanwyn y Grŵp Trafod ar Fai 10fed pan aethom ar ymweliad â Goldlands Farm ym Mro Morgannwg i gwrdd ag Abi Reader, merch ifanc sydd ag angerdd at y diwydiant llaeth. Mae'n aelod gweithgar o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yng Nghymru a hi sy'n gyfrifol am y syniad 'Cows on Tour,' cynllun sy'n ymwneud ag ysgolion ac yn addysgu plant am y diwydiant llaeth a tharddiad ein bwydydd a'n diodydd.

Yna, aethom ymlaen i'r Cynulliad lle roedd Elin Jones yn disgwyl amdanom i'n tywys o amgylch yr adeilad a chael te prynhawn.

Yr wythnos hyn mae nifer o'n haelodau ar eu trip haf i Ogledd Iwerddon dan ofal Margaret Dalton ac Aneurin Davies. Mae'n siŵr y bydd ganddynt lawer o straeon i'w hadrodd yn y cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal nos Fawrth 24 Medi yng Nghlwb Rygbi Llanbed. Disgwylir y cwmni dwysfwyd, For Farmers i roi cyflwyniad. Croeso cynnes i aelodau, hen a newydd i'r noson agoriadol.

Siop Fferyllydd, Stryd Fawr



Siop Fferyllydd, Stryd Fawr Llanbed yn dathlu pen-blwydd yn 150. Yn y llun mae'r tri deiliad diwethaf, Betty Phillips, Philip Lodwick ac Adrian Thomas, sydd rhyngddynt wedi rhedeg y siop am 76 mlynedd.

Yn 1869 agorodd Mr Roderick Evans siop fferyllydd yn Llanbed. Cafodd ddechreuad da trwy briodi merch Williams y fferyllydd, Llanybydder. Daeth y rheilffordd i Lanbed yn 1865 a hynny yn creu cyfleoedd masnach i ffermwyr a busnesau eraill. Roeddd Mr Evans a'i deulu yn byw uwch ben y siop a thros gyfnod o 50 mlynedd fe fuon nhw'n hael eu cefnogaeth i fywyd y dref.

Yn 1923 trosglwyddwyd y fusnes i Mr. Miles Davies ac yntau a'i deulu hefyd yn byw uwch y siop. Am gyfnod, bu ei ferched yn ei helpu yn y siop. Ac yna, wedi ymddeol yn ystod yr Ail Ryfed Byd symudodd Mr. Davies i Aberystwyth.

Daeth y siop dan ofal Mr. William Phillips yn 1943 ac yntau wedi cymhwyso yn fferyllydd yn Llundain yn 1930. Ymsefydlodd yn Llanbed a phriodi Betty, merch leol a fu'n gefn mawr iddo yn y siop. Roedd Betty'n chwaraewraig bowls arbennig ac erbyn hyn mae'n dal i fyw'n lleol yn Hafan Deg. Roedd Bill yn fferyllydd ymarferol iawn gydag eli at bron bob clwyf. Fe oedd yn rhedeg y siop yn 1948 pan sefydlwyd y Gwasanaeth Iechyd.

Yn 1994 y symudodd Mr Phillip Lodwick o Boots, bwrw ati i foderneiddio'r siop ac yntau hefyd yn priodi merch leol, Ceris. Yr adeg honno, roedd y dre yn dal i gynnal mart a marchnad ar ddydd Mawrth pan oedd siopau'r stryd fawr yn llawn prysurdeb. Ymddeolodd Philip ar ôl rhoi gwasanaeth i'r dref am 30 mlynedd.

Yna, cymerodd Mr. Adrian Thomas o Hendy, Pontarddulais y siop yn 2004 ac yntau hefyd yn mynd ati i'w moderneiddio. Erbyn hyn, ar ôl 15 mlynedd, mae'n gyfarwydd i bawb ac yn barchus yn y dref.

Llanbedr Pont Steffan

Aduniad Hanner can mlynedd Gelli Aur



Ddydd Sul y 12fed o Awst cynhaliwyd aduniad hanner can mlynedd cynfyfyrwyr Coleg Gelli-Aur yn y Llwyn Iorwg, Caerfyrddin ac o'r 19 oedd yn bresennol roedd 5 ohonynt yn dod o ardal Llanbedr.

Er nad oeddem yn adnabod Dai Llanfair Fach ar y pryd roedd yn boblogaidd iawn gan mai ef oedd yr unig un a oedd yn perchen car yno! Llongyfarchiadau i Deborah am ddysgu Cymraeg perffaith iddo gan nad oedd ganddo air o Gymraeg ar y pryd. Roedd bod yn fyfyrwr yn 1969 yn golygu codi am 6 y bore i odro 120 o wartheg neu fwydo anfeiliaid a oedd yn cynnwys moch ac wyth mil o ieir.

Cynhaliwyd darlithiau ar fore Sadwrn a chwe myfyriwr yn sefyll yn eu tro i wneud y gwaith ffarm dros y penwythnos a gorfod mynd i'r gwely erbyn deg y nos yn y plasty moethus.

Mae'n ddiddorol dilyn hanes gyrfa pobl. Y gorau yn cyrraedd heb yr un cymhwyster ond erbyn hyn yn darlithio yn Harper Adams ac yn athro mewn Peirianeg Amaethyddol, un arall yn ymuno â'r Heddlu ac yn dod yn Brif Arolygwr Heddlu Gogledd Cymru ac wedi ymddeol yn Ficer Plwyf erbyn hyn.

Aeth eraill yn athrawon, yn ddynion tarw potel ac yn y blaen, ond y rhan fwyaf yn mynd i ffermio gartref a phedwar ohonynt yn gorfod mynd adref i odro y prynhawn hwnnw yn syth ar ôl gorffen eu cwrs!

Trist oedd cofio sawl un ohonynt gan gynnwys Ann Griffiths, Olmarch Isaf, Llanybi a fu farw mewn damwain lai na blwyddyn wedi gadael y Coleg.

Braf oedd cwrdd unwaith eto a rhannu atgofion am naw mis hapus o'n harddegau.

gan Dai Dolau.

Clwb Bowllo Llanbedr



Llongyfarchiadau i holl aelodau Clwb Bowllo Llanbedr P.S am gyrraedd rowndiau cyn derfynol Bowllo Cymru eleni. Roedd yna gystadleuwyr mewn chwe disgyblaeth. Morwen Thomas, Ceris Watkin, Lilian Davies, Dilwen Thomas, Carolyn James, Melanie Thomas, Anwen Butten ac Alis Butten. Llongyfarchiadau arbennig i Melanie Thomas am gipio Gwobr Senglau Cymru.

Daeth llwyddiant hefyd i Hari a Tim Butten yn y gystadleuaeth agored i barau yn Aberystwyth ar ôl curo pâr o Glwb Bowllo Queens Road Aberystwyth yn y rownd derfynol wedi bowllo dros y penwythnos.



Yng nghyfarfod Apêl Pabi Llanbedr yng ngwesty'r Castle Green cyflwynwyd tystysgrifau a bathodynau gan John Davies, Trefnydd yr Apêl a Tom Brown, Cadeirydd y Rhanbarth i sawl aelod am eu gwasanaeth hir. Derbyniodd Sally Evans (canol) fathodyn a thystysgrif am 50 mlynedd o wasanaeth a rhoddwyd gwobr am 30+ mlynedd i'r canlynol, o'r chwith - Palma Stoneam, Annwen Jones, Gloria Thomas, Rosa Lloyd, Mrs Aubrey Morris a Mair James. Hefyd yn y llun mae Tom Brown a John Davies.



Roedd noson Apêl y Pabi yn gyfle i gydnabod nifer sydd wedi rhoi eu gwasanaeth am 5 – 25+ mlynedd a rhoddwyd tystysgrif a bathodyn i bawb i ddangos gwerthfawrogiad am eu gwaith da.



Fe gasglodd Grŵp Amaethyddol Llanbedr £400 yn ystod y flwyddyn diwethaf. Dewisodd Ioan Williams, Cadeirydd roi'r arian tuag at gronfa Ambiwylans Awyr Cymru, a derbynwyd y siec gan Ros Jones ar ran yr elusen.



Chwarae Rygbi i'r Scarlets

5 chwaraewr rygbi sydd yn chwarae i dîm Clwb Rygbi Llanbedr yn wythnosol ac maen nhw wedi cael eu dewis i chwarae i dîm rygbi y Scarlets Dan 16 am y tymor 2019 - 2020. Llongyfarchiadau iddyn nhw i gyd, tipyn o gamp. O'r chwith i'r dde - Ioan Lewis, Dafydd Jones, Steffan Holmes, Griff Morgan, Carwyn Davies.



Enw: Ryan John Doughty
Oed: 23
Pentref: Cwmann
Gwaith: Peiriannwr Trydan Princes Gate
Partner: Sengl
Teulu: Chris, Carol, Daniel

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Mynd lawr i fferm hen fam-gu Glaneinon i reido beic modur yn y caeau.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Drake and Josh.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Rhoi parch i bawb.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Joio pob eiliad a chreu cymaint o atgofion ag y gallaf.

Y CD cyntaf a brynast di erioed?
Clubland 7.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Chwaraewr rygbi proffesiynol.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Chwarae yn y parc yn Ysgol Carreg Hirfaen, bod yn ddyn mawr a chwmpo a thorri braich cwpwl o ddiwrnode cyn mynd ar wylie i Sbaen; mam ddim yn hapus.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Gwyliau syrpreis i Rufain yn yr Eidal, trip gwych.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Gartre yn Cwmann gyda'r teulu, cael BBQ a chwplwl o shandies.

Pwy yw dy arwyr?
Tad-cu Llanybydder.

Taset ti'n fised, pa fath fyddet ti a pham?
Custard cream, caled tu allan, meddal ar y tu mewn.

Beth yw dy arbenigedd?
Peiriannwr trydanol.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Gwerth chweil wrth drwsio peiriannau cynhyrchu.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
Dim cael pob penwythnos bant i joio gyda ffrindiau neu chwarae rygbi.

Y peth gorau am yr ardal hon?



Cymuned agos sydd wastad ar gael i helpu.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Dim clwb nos ar gael ar nosweithe mas.

Pa mor wyrdd wyt ti?
Yn dda, rhaid parchu yr amgylchedd.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?
Pobol sydd yn dod i'r wlad i ddysgu Cymraeg i gadw'r iaith i fynd.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobol sydd yn cymryd popeth heb roi nôl.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Bwco gwyliau i bawb yn y teulu yn rhywle sy'n dwym yn yr haf .

Beth sy'n codi ofn arnat?
Pry copyn.

Pryd lefaist ti ddiwethaf?
Llefenn wrth chwerthin ar y penwythnos.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Ar ôl gormod o gwrw yn Aberystwyth.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Gwelld yr 'Amazon' yn cael ei losgi gan bobl racs

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?
'Ces i'r rownd dwethaf'

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
Yn rhyw gae yn y Royal Welsh; ffaeles i gyrraedd y tent mewn amser.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Cael newyddion am dderbyn swydd gyda Princes Gate.

Ac yn bersonol?
Pasio test gyrru

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Chwarae rygbi i Lamed.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Byth i ddifaru pethau sydd wedi digwydd ond i ddysgu o'r profiad.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Cymhwyso fel trydanwr o Goleg Sir Gâr.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Hapus, allblyg, anturus.

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Cyfeillgar.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Ford Focus ST.

A'th hoff adeilad?
Statue of Liberty.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Quiche mam-gu Y Fenni.

Beth yw cynnwys dy oergell di?
Llawer o samwn, dim byd gwell.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Papur newyddion.

Beth yw dy hoff arogl?
Glaw ar ôl diwrnod twym.

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
Lion King.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Ffaelu altro perfection.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Llygaid.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Ffôn symudol.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Jwmpo allan o awyren.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Coffi ac afal.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Gwneud teulu yn prowdd wrth weitho yn galed.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
The sound of silence.

Oes bywyd ar ôl marwolaeth?
Dydw i ddim yn meddwl.

Beth fyddet yn ei wneud os na fyddet ti'n gwneud y gwaith hwn?
Teithio rownd y byd.

Ar beth y gwnest orwario fwyaf?
'Takeaways'.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Teulu.

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?
Dad, yn rhoi cyngor i fi gael gwella fy hun; fydden i ddim ble ydw i hebddo fe.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti nawr?
Dal fy nhad.

Y gwyliau gorau?
America da'r teulu / Awstria ffrindiau

Llangybi



Golff

Llongyfarchiadau i Dion Teilo Regan, Olmarch am gael ei ddewis yn 'Seren Chwaraeon y Flwyddyn' gyda Radio Ceredigion. Cynhaliwyd Seremoni i wobrwyo Arwyr Lleol yng Ngwesty'r Cliff, Gwbert ar nos Wener yr 17eg o Fai. Cyflwynwyd tlws arbennig gan Volac, sef noddwyr y gystadleuaeth. Yn ddiweddarach derbyniodd Dion hefyd dystysgrif efydd gan 'Ceredigion Actif' am ei waith yn Llysgennad Chwaraeon Ifanc Ysgol y Dderi. Cafodd Dion hefyd lwyddiant yn chwarae golff ar ddiwrnod Capten y Dynion yng Nghlwb Golff Cilgwyn pan enillodd yr ail wobwr gyda sgôr gros o 72. Yna, fe lwyddodd i ennill y wobwr gyntaf ar ddiwrnod Capten Iau y Clwb. Yn dilyn y canlyniadau hyn, mae ei handicap wedi gostwng i 8.8. Hoffai Dion ddiolch o galon i BCCIT am eu cefnogaeth barhaus. Llongyfarchiadau i Dion a'i frawd Tomi-Jac Regan am gael eu derbyn i chwarae i academi pêl-droed Aberystwyth. Pob lwc i'r ddau!

Priodas Aur

Llongyfarchiadau calonnog i'r Cyng. Odwyn ac Ann Davies ar ddathlu eu Priodas Aur ym mis Awst. Iechyd da i'r dyfodol.



Caryl Ann Lewis, Llangybi yn ennill y gil-wobr gyda'i heffer dan ddwy oed 'Eirianfa Ebrill' yn Adran y Gwartheg Duon Cymreig yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Sioned Evans, 5 Godre'r Coed, ar dderbyn ei chanlyniadau lefel A yn ddiweddar. Da iawn ti, a phob dymuniad da i ti ym Mhrifysgol De Cymru, Casnewydd.

Merched y Wawr

Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor yn LAS, Llambled am 2:30y.p. ar Fedi 18fed pryd y cawn weld a chlywed sut mae'r fenter yn gweithio. Ymlaen wedyn am De Prynawn yn Y Sospan. Croeso i aelodau newydd

Hamdden

Bydd Hamdden yn cyfarfod ar Hydref 4ydd yn Ysgol Y Dderi am 2:00 y.p. pan fydd y Bon. Alan Leach yn sôn am hanes Plas Y Dderi. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cyrddau Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Ebeneser brynhawn Sul, Medi 22ain am 2:00y.p. pan fydd y Parch Goronwy Evans, Llambled yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

Brynhawn Mercher, Hydref 2il am 2:00y.p. cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Maesyffynnon. Pregethir gan y Parch Andrew Lenny, Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i holl bobl ifanc yr ardal a fu yn llwydiannus yn eu haroliadau yn ystod yr haf. Dymuniadau gorau a phob llwyddiant yn y dyfodol. Llongyfarchiadau hefyd i bawb a fu yn llwyddiannus yn y sioeau amaethyddol.

Glybiau Ffermwyr Ifanc

Llwyddiant ysgubol i Glybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg Prydain



Teithiodd pump aelod o glybiau Ffermwyr Ifanc y sir i Stafford yn ddiweddar i gynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus NFYFC Cymru a Lloegr yng nghategori Adran Hŷn Saesneg – 'Siarad ar ôl Cinio'.

Roedd y pump aelod sef Carwyn Blayney, Naomi Nicholas, Cennydd Jones ac Endaf Griffiths [oll o Glwb Pontsian] a Lauren Jones [Clwb Llanwenog] yn cystadlu yn erbyn pedwar tîm o Loegr a oedd yn cynrychioli Cernyw, Dyfnaint, Sir Gaerhirfryn a Durham. Pan ddaeth y canlyniad, Cymru oedd ar y brig, 10 marc o flaen Dyfnaint a ddaeth yn ail.

Derbyniodd Carwyn y dystysgrif am y siaradwr gorau yn y gystadleuaeth a Cennydd yn ail. Endaf oedd y cadeirydd gorau yn y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau gwresog i'r tîm ac i Delyth Parry a fu wrthi yn eu hyfforddi.

C.Ff.I. Ceredigion

Mae tymor Mudiad y Ffermwyr Ifainc ar fin ail-ddechrau unwaith eto ym mis Medi yn dilyn seibiant dros yr haf.

Cafwyd sawl rheswm i ddathlu yn ddiweddar, yn enwedig yn ystod wythnos y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd lle cipiodd CFfI Ceredigion Gwpan Her yr NFU eleni eto am y nifer uchaf o bwyntiau yn adran y CFfI ar ddiwedd yr wythnos. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu.

Yn ystod yr wythnos honno hefyd cyhoeddwyd aelodau newydd Menter Moch Cymru, a llongyfarchiadau i Rhiannon Davies, CFfI Caerwedros, ar gael ei dewis.

Bu nifer o aelodau hefyd yn cystadlu yn y cystadlaethau barnu stoc, cneifio a threialon cŵn defaid yn y sioeau lleol ar hyd a lled y sir dros gyfnod yr haf.



Llongyfarchiadau anferthol i Alaw Fflur Jones, CFfI Felin-fach, sydd wedi cael ei hethol yn ddiweddar yn Aelod Iau Ffederasiwn Cenedlaethol y CFfI (NFYFC), a hynny ar ôl ennill y teitl ar lefel sirol a chenedlaethol. Arbennig wir, a phob dymuniad da yn ystod y flwyddyn brysur.

Bu aelodau o CFfI Ceredigion yn rhan o daith dramor grŵp CFfI Cymru ar yr Inter-rail yn Nwyrain Ewrop. Edrychwn ymlaen at glywed yr hanesion.

Mae Gig Ola'r Haf yn ôl unwaith eto eleni, a hynny mewn lleoliad hudolus, newydd – Yr Hen Goleg, Aberystwyth. Dewch i ymuno â ni nos Wener 13 Medi am noson wych yng nghwmni Tom Collins ac Al Lewis!

A hithau'n ddechrau blwyddyn newydd yng nghalendr y mudiad, dyma'r cyfle perffaith i ymuno â'ch clwb lleol. Ewch draw i wefan CFfI Ceredigion i ddarllen rhagor am bob clwb yn y Sir, a chysylltwch â'r swyddfa neu ag aelod o'r clwb i gael rhaglen ddigwyddiadau'r clwb. Beth amdani, felly?

Dyddiadau i'ch dyddiadur

13 Medi Gig Ola'r Haf

14-15 Medi Cyfarfod Blynnyddol CFfI Cymru, Aberystwyth

18 Medi Pwyllgor Blynnyddol CFfI Ceredigion, Llanaafan

28 Medi Diwrnod Maes y Sir, Trawsgoed

Taith dilyn y Teifi

Ar fore heuolog ym mis Mehefin daith tyrfa luosog ar daith Afon Teifi a gychwynnodd o dre Llanbedr Pont Steffan. O fewn canllath gwelsom y Ffagbys, blodyn rhwydd i'w adnabod pan mae wedi sychu gan fod y codau aeddfed yn ddu.

Cerdded lawr wedyn drwy ran o Lanbed a elwir yn Barley Mow a gwyddom fod 'na felin flawd a thafarn yma un adeg, y ddaear ffrwythlon ar lan y Teifi yn help i dyfu haidd a cheirch. Ar ôl gadael y tarmac fe gerddom ar hyd llwybr yr afon, gweld cwrs trotian un o gymeriadau Barley Mow a chroesi'r Creuddyn a chyrraedd Cae Sion Phillip. Collodd Sion Phillip ei fywyd a'i dir drwy dwyll Sgweier Plas Ffynnon Bedr.

Nid ydym yn sylweddoli pa mor droellog yw'r afon na pha mor fawr yw'r caeau neu'r dolydd, ond wrth fynd gwelsom aberoedd nentydd yr Eiddig a'r Hor sydd â'u tarddiad ar fynydd Pencarreg, Sir Gaerfyrddin. Roedd y ffermwyr yn cynaeafu'r silwair a'r gwair mewn byrnau mawr a ninnau'n cerdded yn hamddenol gan sylwi a didoli blodau diddorol ar lan yr afon, y Fursen Las Gyffredin yn ei miloedd yno.

Cyn troi'n sodlau oddi wrth y Tefi fe aethom at bileri cerrig a fu gynt yn dal pont gul dros yr afon a adwaenir yn lleol fel Pont Hamilton. Adeiladwyd y bont gan Sir James Hamilton fferm Dolgwm Isaf, Sir Gaerfyrddin a oedd yn perchen tir yn Sir Aberteif. Dangosodd y tywysydd lun o'r bont i ni, sef pont grog wyneb i waered neu inverted suspension bridge. Credir iddi gael ei hadeiladu rhwng 1866-1870 gan fod deunydd y pileri yn debyg i'r cerrig a ddefnyddiwyd gan adeiladwyr y rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth. Prif bwrpas y bont oedd ei gwneud hi'n bosib cyrraedd dolydd bras Ceredigion heb gerdded o amgylch Llanybydder.

Cawsom ginio yng nghysgod coeden fawr cyn bwrw am ffermydd Dolaugwyrdion Isaf ac Uchaf a chyrraedd Pentre Bach, heibio hen Eglwys Sant Ioan a phen heol gwaith dŵr potel Old Quarry gynt, ac am fferm Pentre Sion. Aethom lan ar hyd bancyn gweddol serth wedyn a throi yn ôl i weld

Dyffryn Teifi yn ei holl ogoniant ym mis Mehefin, a chyraedd fferm odro Tŷ Llwyd, Maestir. Mae'n hyfryd gweld bod ffermydd ardal Llanbed yn parhau i odro.

I gyrraedd y briffordd nol am Llanbed roedd rhaid mynd heibio hen gwrs golff Ffynnon Bedr a cheir hanes yn y cyffiniau hyn bod 'na hen dafarn anghyfreithlon, Tafarn Trip, yn arfer bod yno. Do, fe gafwyd diwrnod i'w drysori a phawb wedi elwa o glywed hanes a gweld byd natur Dyffryn Teifi.



CACEN CYMRU
Gŵyl Ryngwladol Pice ar y Maen

Cystuddeuethi Iwco - Hella Crysoi - Raddi - Rowlio Pice ar y Maen -
Taflu Pice ar y Maen - Stondinau - Bar - Llundain

21 - 9 - 2019

NEUADD BUDDUG, LLANBEDR PONT STEFFAN

www.lampeterevents.co.uk 07973951611 **LAMPETER ROUNDTABLE**

Cyngorau Cymuned



Cyngor Cymuned Llanybydder

Llongyfarchiadau mawr i'r Cyng Ieuan Davies Llanybydder ar gael ei ethol yn Is-Gadeirydd Cyngor Sir Gâr am y flwyddyn 2019-20. Pob lwc a dymuniadau gorau iddo yn ei flwyddyn brysus.

Mae Mr Kevin Jones, Gwesty'r Cross Hands wedi cael ei gyfethol yn gynghorydd ar Gyngor Cymuned Llanybydder. Rydym yn edrych ymlaen at gael ei gwmni yn ein cyfarfod nesaf ym mis Medi 2019.

Mae tipyn o rasio peryglus ar fynydd Llanllwni gyda gyrrwyr yn dod o bell. Mae wedi mynd yn rhy beryglus i unrhyw un arall fod ar yr heol ac mae'r mater wedi cael ei drafod gyda'r Heddlu sydd nawr yn gofyn am rifau'r moduron cyn y gallan nhw wneud unrhyw beth am y mater.

Mae pethau'n symud ymlaen gyda'r cynllun Go Safe sy'n delio â mater gyrru'n rhy gyflym drwy'r pentref.

Mae'r shed yn y parc wedi cael ei thorri'n wael iawn gan rywun ac mae'r Heddlu wedi gwneud ymholiadau. Os oes gennych unrhyw wybodaeth, rhowch wybod i'r Heddlu ar unwaith.

Sylwadur'r SiNeMa

gan Gary Slaymaker



Medi 6ed: Wild Rose – Un o berlau cudd y sinema Brydeinig eleni odd Wild Rose. I radde, mae'n anffodus bod A Star is Born wedi ymddangos rai misoedd o'i blaen hi achos ma hon crystal bob tamaid â ffilm Lady Ga Ga. Ma 'na wraidd tebyg i'r ddwy ffilm – menyw ifanc, dalentog yn chwilio am ffordd allan o'i bywyd diflas er mwyn bod yn seren gerddorol. Ond ma Wild Rose yn mynd â ni ar antur fwy caled, crafog, ac ar adegau, tor-calonnus. Ac yn lle roc a phop, canu gwlad yw'r steil cerddorol sy'n plethu drwy'r ffilm Brydeinig 'ma. Ar ôl ca'l ei rhyddhau o'r carchar, ma Rose-Lynn Harlan (Jessie Buckley) yn benderfynol o ddilyn ei breuddwyd i fod yn gantores canu gwlad ac i berfformio ar lwyfan y Grand Ole Opry. Yn anffodus, gyda thag electroneg ar ei phigwrn a dau blentyn bach i garco, mae'n mynd i fod yn siwrne faith i Rose gyraedd pen y daith.

Ma'r perfformiade'n wych drwyddi draw, gyda Jessie Buckley'n berffaith fel ein harwres, yn cymysgu hyder swnllyd gydag eiliadau pwerus lle mae'n amau ei gallu i ymdopi...a jiauwch, ma' hi'n galler canu'n arbennig. Ma Julie Walters, fel mam Rose, yn rhoi perfformiad cynnil a nerthol, yn wahanol i'r math o greadigaethau ry'n ni'n ei nabod hi orau amdany'n nhw. Wrth gwrs, ma rhywfaint o lwyddiant hon yn dibynnu ar eich cariad chi tuag at ganu gwlad, ond mae'n stori sy'n cydio a ma'r gerddoriaeth wedi cael ei dewis yn berffaith i ychwanegu at yr hanes. "Feelgood movie" gydag ambell i dwtsh o dristwch, i'w chadw hi rhag mynd yn or-sentimental. Ffilm y mis, i fi.

Medi 20fed: All is True – Cymysgedd o ffuglen a hanes gewn ni fan hyn wrth ddilyn yr enwog William Shakespeare ar ôl i Theatr y Glôb losgi'n gols a'i benderfyniad i ddychwelyd adre at ei wraig, a'i ddwy ferch, i riparo'r tyllau anferth yn ei berthynas gyda'r tair. Yn anffodus i Wil, dyw'r Missus na'r merched ddim yn meddwl rhyw lawer o'i ymdrechion. Wedi ei sgriptio gan Ben Elton, gyda'r sêr Judi Dench, Ian McKellan, a Kenneth Branagh (sydd hefyd yn cyfarwyddo) ma hon yn ffilm sydd bron wedi ei chreu i enill gwobrau di-ri. 'Na drueni bod hi braidd yn llipa, felly. 'Dos 'na ddim byd o'i le da'r perfformiade, yn amlwg, gyda chast mor dalentog ond o ystyried ma Elton o'dd hefyd yn gyfrifol am y gyfres deledu, Upstart Crow (comedi sefyllfa am fywyd teuluol Shakespeare), fydden i wedi disgwyl mwy o hiwmor a falle un neu ddwy "knob gag" bach slei. Ac wrth gwrs, allwch chi ddim help cymharu hon gyda Shakespeare in Love chwaith, yn enwedig gan fod y ddwy yn cynnwys Judi Dench. Ac unwaith eto, ma Shakespeare in Love yn rhagori am yr hiwmor a'r rhamant a hefyd yn cynnig esiamplau difyr iawn am hanes y dramodydd. Falle taw gwendid mwya All is True yw ei bod hi'n teimlo fel drama lwyfan yn hytrach na ffilm ac mae'n llawer mwy sentimental nag o'n i'n ei ddisgwyl hefyd. Arbrawf diddorol, ond 'dyw hi ddim cweit yn gweitho.

Hydref 4ydd: Rocketman – 'Weda i'n syth o'r dachre, 'wi'm yn ffan mawr o Elton John, y boi, na'i gerddoriaeth. Wedyn o'n i ddim wir yn edrych mlan at weld hon pan gyrhaeddodd hi'r sinema nôl ym mis Mai eleni. Ond er mawr syndod, ffindes i'n hunan yn tapo 'nhraed, yn canu i nifer o'r caneunon, ac yn rhyfeddu ar allu'r cyfarwyddwr, Dexter Fletcher, i drosi hanes Reg Dwight, y crwt bach tew o Pinner, fewn i'r deinamo artistig, Elton John.

Pan y'n ni'n cwrdd ag Elton gynta, mae e ar ei ffordd i Rehab ar ôl cyfnod hir a gwyllt o 'or-fwynhau'. O fynta, ni'n mynd nôl i'w blentyndod ac yn dilyn ei hanes o fod yn prodigy cerddorol ar y piano i fod yn banydd mewn bandie ceinog a dime yn Llundain, i'w lwyddiant rhyngwladol – pob cam o'r ffordd yn cael cyfeiliant un o'i ganeunon enwog.

Mae'n fywiog, yn swnllyd, ma cyfarwyddo Fletcher yn berffaith, a ma Taron Egerton yn taflu ei hunan fewn i'r brif rôl gyda arddeliad. Ma'r set pieces cerddorol yn wirioneddol egnïol, a fydden i'n ddigon hapus i weld Dexter Fletcher yn troi ei law at wneud biopics cerddorol am weddill ei oes....jiawl, alla i ddim aros i weld e'n neud John ac Alun: Ddy Mŵfi.

Clwb Clonc

Medi 2019

£25 rhif 173 : Mrs Eirlys Evans, Llanllwni

£20 rhif 15 : Alys Elin Davies, Drefach

£15 rhif 91 : Mrs Siân Davies, Cwmann.

£10 rhif 433 : Mrs Ann Roberts, Cwmann.

£10 rhif 371 : Dewi Morgan, Llanbed.

£10 rhif 269 : Mrs Elenid Jones, Cwmsychpant.

£5 rhif 513 : Mark Wilson, Caerfyrddin.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni



Cyn diwedd y tymor aethom ar ymweliad i Gerddi Norwood yn rhan o themâu y ddau ddosbarth. Cafwyd amser da yn mynd o amgylch y lle a gweld yr holl amrywiaeth o flodau a phlanhigion. Roedd yn amlwg bod y perchnogion yn gweithio yn galed er mwyn cadw'r lle mor brydferth a thaclus. Diolch am y croeso.

Buom ym mabolgampau ysgolion Cylch Pencader ddechrau mis Gorffennaf. Cawsom ddiwrnod da a gwnaeth y plant yn arbennig o dda. Roedd nifer o rieni a ffrindiau'r ysgol wedi dod i gefnogi, Diolch yn fawr.



Cynhaliwyd Diwrnod Hwyl llwyddiannus iawn ddydd Sul, 7fed o Orffennaf ar gaeau chwarae'r pentref. Roedd yna garnifal, mabolgampau, tynnu'r gelyn, amrywiaeth o stondinau, barbeciw a lluniaeth. Yn newydd eleni roedd yna sêl cist car. Y Llywyddion oedd Dave a Tracey, Siop y Pentre. Braf oedd cael dechrau'r prynhawn gyda gwasanaeth pwrpasol gan yr Archddiacon Eileen Davies.



Trefnwyd y diwrnod gan yr Ysgol Feithrin, y C.Ff.I a Phwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol. Diolch i bawb a fu'n cystadlu, yn helpu mewn unrhyw ffordd ac i bawb a ddaeth i gefnogi. Roedd yn ddiwrnod hwylus iawn.

Bu rhai plant yn cymryd rhan yng Ngŵyl Canol Dre Caerfyrddin cyn y gwyliau. Roedd yn braf cael

diddanu'r cyhoedd ar y Llwyfan Perfformio. Da iawn chi, blant. Yna cawsant gyfle i wyluo ysgolion eraill yn perfformio a mynd o amgylch y stondinau a'r gweithgareddau. Diolch am y gwahoddaid i fod yn rhan o'r ŵyl.

Buom hefyd yn cymryd rhan yn Noson Goffi yr Eglwys drwy ganu ac adrodd. Cafodd y plant ganmoliaeth uchel am safon eu perfformiad. Diolch i Mrs. Bethan Hopkins-Jones am gyfeilio ar y noson ac yng Nghaerfyrddin.



Bu'r Adran Iau ar daith i Lyn y Fan Fach ger Llanymddyfri gan eu bod wedi gwneud gwaith ar y stori yn y dosbarth.

Hoffwn ddiolch i Mr. Mark Vince, Caffi'r West End am ein gwahodd i ginio am ddim er mwyn dathlu ein llwyddiant yn y ras Fformiwla 3D yn ddiweddar.

Cafodd y Cyfnod Sylfaen lawer o hwyl pan ddaeth Llinos Mair, awdures cyfres Wenfro, atom am fore gan wneud gweithgareddau ar sail rhai o'r llyfrau. Roedd wedi dod â sawl cêd o adnoddau a buodd y plant yn ymuno yn y gweithgareddau gan ryfeddu at ei dawn a'i syniadau creadigol.

Hoffem i gyd longyfarch yr Archddiacon Eileen Davies ar gael ei hanrhydeddu yn Archddiacon Ceredigion. Bydd Ficer Eileen yn dod i'r ysgol yn rheolaidd ym mis Medi i gynnal gwasanaethau. Daeth atom un bore cyn y gwyliau i gyflwyno'i hun a chymryd gwasanaeth byr. Edrychwn ymlaen at ei hymweliadau yn fawr.

Buom yn casglu sbwriel a phlannu blodau fel rhan o'n gwaith Eco ddiwedd y tymor.



Aeth ein trip diwedd tymor i Heatherton. Buom yn lwcus o ddiwrnod braf a mwynhaodd pawb mas draw.

Ddiwedd y tymor ffarweliom â disgyblion Blwyddyn 6 sef Elan, Mared, Tilly a Nikola.

Bu'r pedair yn weithgar ac yn ymroddgar iawn tra yn yr ysgol a byddwn fel ysgol yn gweld eu heisiau yn fawr. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn Ysgol Bro Pedr. Maent wedi addo dod 'nôl i'n gweld!

Croesawn dri aelod bach newydd yn y Cyfnod Sylfaen sef Chloe, Sara a Jack. Maent yn setlo'n dda ac yn mwynhau profiadau newydd gyda'u ffrindiau.

Longyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus mewn sioeau a chwaraeon yn ystod yr haf.

Hoffwn ddiolch i Statkraft, Y Cyngor Bro a'r Pwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau sydd wedi ein cefnogi yn ystod y flwyddyn.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol-
Mis Gorffennaf-

- 1af - £50 – Harvey, Cnwylili, Maesycrugiau.
- 2ail - £40 – Stefan Jarvowski, Pontdulais Hall, Llanllwni.
- 3ydd - £30 – Rhian Davies, Felinfach.
- 4ydd - £20 – Aeron Davies, Glynriced Fawr, Llanllwni.
- 5ed - £10 – Clare Smith, Gwyddgrug
- 6ed - £5 – Catrin Davies, Manordeifi, Llanllwni
- Mis Awst-
- 1af - £10 – Carol Evans, Gelli, Llanllwni..
- 2ail - £5 – John a Menna Hopkins, Llygad yr Haul, Cwndwyfran.
- 3ydd - £5 – Adrian George, Haulfryn, New Inn

Genedigaeth

Ddiwedd mis Gorffennaf ganwyd merch fach, Nansi Fflur i Carys a Kevin Jones, Trysor a chwaer fach i Mari a Hana. Pob dymuniad da i chi.

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Clwb 100

Enillwyr mis Gorffennaf:

- 1. Elgan Jones (rhif 33). 2. Andrew Doyle (140). 3. Mair Williams (31).
- Enillwyr mis Awst
- 1. Dyfrig Davies (rhif 83). 2. Ifor James (49). 3. Meinir Evans (138).

Ar Awst 4ydd bedyddiwyd Elis Gruff Evans, mab Scott a Ffion, Llys Celyn, Llanllwni.

Llwyddiant cerddorol

Longyfarchiadau i Elan Evans, Brynceirch am basio Gradd 3 ar y piano gydag anrhydedd dan nawdd Coleg Cerdd Llundain. Da iawn ti.

C.Ff.I. Llanllwni

Ddydd Llun Gŵyl y Banc eleni daeth cymuned Llanllwni ynghyd ar gaeau Abercwm ar gyfer Sioe C.Ff.I Llanllwni – ar ei newydd wedd! Buom yn lwcus ei bod hi'n ddiwrnod braf gan ddenu llu o gystadleuwyr a chefnogwyr. Roedd y babell gynnyrch yn llawn a does dim dwywaith bod y beirniaid wedi gorfod crafu pen i ddewis yr enillwyr!

Longyfarchiadau i holl enillwyr y dydd sef:

Defaid Iseldir - Teulu Jones, Blaenblodau. Defaid Ucheldir – Teulu Evans, Pantycoubal. Pencampwr yr Adran Ddefaid – Teulu Jones, Blaenwaun Ganol. Pencampwr y Sioe Gŵn – Einir George. Pencampwr y Sioe Hen Gerbydau – Arwel Davies, Cartrefi Redwood. Adran Goginio – Ruth Evans. Adran Flodau – Janet Jones. Adran Lysiau – Eric a Janet Jones. Adran

Llanllwni

Cynnyrch Fferm – Teulu Jones, Blaenblodau. Adran Ffotograffiaeth – Janet Brook. Adran Grefft – Teulu Jones, Highview. Adran y Plant - Blwyddyn 2 ac iau – Einir George. Blwyddyn 3 i 6 – Tudur George. Blwyddyn 7 i 13 – Ffion Williams.

Eleni am y tro cyntaf fe gynhaliwyd yr adloniant nos yn y babell ar y cae a does dim dwywaith ei bod hi wedi bod yn noson arbennig! Diolch i Iestyn Owens am fod yn MC i'r rasys ceffylau, a llongyfarchiadau i Gerwyn Thomas, Crossroads am ennill y rasys. Yn bendant, roedd hi'n noson i'r teulu cyfan gyda phawb yn mwynhau'r Hog Roast, yr ocsiwn a'r Sioe Fideo Gwartheg.



Llywyddion y dydd oedd Eric a Tegwen Davies, Ninant.

Nifer uchaf o bwyntiau yn Adran
y Gwartheg Godro – Gwndwn
Nifer uchaf o bwyntiau yn Adran
y Gwartheg Biff – Blaenwaun Ganol
Pencampwr Gwartheg -
Gwarcwm



Allwn ni fel clwb ond diolch o waelod calon i bobl yr ardal am eu haelioni eleni eto. Hoffwn ddiolch i holl aelodau, arweinyddion a chefnogwyr y clwb am bob cymorth tuag at wneud Sioe 2019 yn un mor llwyddiannus. Fe fydd y swm terfynol yn rhifyn Clonc mis nesa ond bydd elw'r Sioe yn mynd tuag at yr Uned Oncoleg, Ysbyty Glangwili.

Alltyblaca

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Elan Jenkins, Llainderi am basio Gradd 3 ar y piano gydag anrhydedd dan nawdd y London College of Music. Cafodd Elan farciau llawn yn y ‘Scales.’ Da iawn ti.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Alltyblaca nos Fercher, Medi 25ain pan fydd y y gwasanaeth yng ngofal Dafydd Iwan. Edrychwn ymlaen at gael ambell i gân ganddo hefyd. Croeso cynnes i bawb.



Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Wyn Thomas, Ffynnon Rhys ben-blwydd arbennig yn ystod yr Haf. Gobeithio eich bod wedi cael diwrnod cofiadwy.

Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog 2019

Cynhaliwyd 39ain Sioe Amaethyddol, Cynnyrch, Ceffylau, Cŵn a Hen Beiriannau Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog ar gaeau Glwydwern, Llanwnnen, trwy garedigrwydd Elfyn a Sharon Morgans ddydd Sadwrn, 17eg o Awst. Prif elusen y sioe eleni oedd Unedau Cemotherapi Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Bronglais.

Ynghyd â'r cystadlaethau yn y babell ac ar y cae, cafwyd cwpl o stondinau lleol, mabolgampau i blant, paentio wynebau ac ocsiwn lwyddiannus iawn yng ngofal Eifion Morgans. Yna, cafwyd noson deuluol gyda Elin Haf Jones yn diddanu'r plant, castell neidio a Richard, Thomas a Sara Pantydefaid yn canu tan oriau mân y bore! Diolch iddynt am noson llawn hwyl.

Er mawr foddhad i aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr y sioe, yn dilyn y tywydd gwlyb ddydd Gwener cafwyd diwrnod heulog a sioe lwyddiannus iawn o ran niferoedd a safon y cystadlu. Cyflwynwyd y gwobrau gan y Llywyddion, Mr a Mrs Tony Hatcher, Abernant, Llanwenog, i'r canlynol:

CEFFYLAU: Ceffylau mewn llaw – Pencampwr – Dai Evans, Clogfryn, Aberaeron (Trehewyd Gwenfron); Is-bencampwr – Davies, Caehaidd, Aberaeron (Henfenyw Tegwena); Marchogaeth – Pencampwr – Vinnie Thomas, Llanybydder (Kitty); Is-bencampwr – Chloe Evans, Cwmplas Stud, Coedybryn (Menai Seren Chloe); Hynodion y Ceffylau – Emily Logan, Maestir, Llambled (Cadno Herbie goes Bananas); Pencampwr yr adran geffylau, ac yn derbyn cwpan Hang-On yn roddedig er cof am Tim a Dorothy Thomas, Ffynon Rhys – Vinny Thomas, Llanybydder (Kitty).

DEFAID: Defaid Llanwenog – Pencampwr – Huw Evans, Alltgoch (hwrdd); Is-bencampwr – Gareth a Wendy Evans, Parcyrhos (dafad); Gwobr Cymdeithas Defaid Llanwenog – Huw Evans, Alltgoch (hwrdd); Defaid Penfrith/Speckled – Pencampwr – Teulu Morgans, Glwydwern (hwrdd); Is-bencampwr – Teulu Morgans, Glwydwern (dafad); Defaid Cyfandirol / Continental – Pencampwr – Howells, Tycam (oen; Is-bencampwr – Dylan Isaac (dafad); Unrhyw frîd Iseldir/Lowland arall – Pencampwr – Anwen Jones, Blaenblodau; Is-bencampwr – Heulyn Thomas, Sychdy; Unrhyw frîd mynyddig arall – Pencampwr – Crimes, Gafryw (hwrdd;) Is-bencampwr – John Green, Llanddewi Brefi (dafad); Oen i'r cigydd – Pencampwr – John Jones, Penyrheol ac Is-bencampwr – Guto Jones, Neuadd; Pencampwr y Pencampwyr yn adran y Defaid, ac yn ennill cwpan her Wyn Morgans, Glwydwern – Huw Evans, Alltgoch. Arddangosydd gorau – Huw Evans, Alltgoch; Barnu Wŷn Tew C.Ff.I – Owain Jones, Blaenhirbant.



HEN BEIRIANNAU: Pencampwr, ac yn ennill cwpan her Jim Evans, Fronwen – Eirian Evans, Brynllwyd.

GWARTHEG BIFF: Pencampwr – Teulu Morgans, Glwydwern (buwch a llo heffer); Is-bencampwr – Carwyn Lewis, Gwarcoedeinion (Bustach gora);.

GWARTHEG GODRO: Pencampwr – Teulu Williams, Clynoch,
Cwrtnwydd (buwch mewn llaeth). Is-bencampwr – Alan Davies, Tyngrug
Isaf (buches di-linach).

Y BABELL: Cynnyrch Gardd – Bessie Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd; Coginio – Esyllt Ellis Jones, Cefnrhuddlan Isaf; Gwinoedd – Pete Ebbsworth, Brynamlwg; Cyffaith – Eluned Davies, Bryniau; Gwaith Llaw – Eluned Davies, Bryniau; Blodau – Erika Davies, Felinban; Cystadlaethau 18 oed neu iau – Meryl Evans, Rhydsais, Talgarreg; Cystadlaethau 26 oed neu iau – Ffion Jenkins, Tŷ Llwyd; Adran Plant Ysgol Gynradd: Blwyddyn 6 neu iau – Lleucu Haf Thomas, Llety Aur, Blaenporth; Blwyddyn 2 neu iau – Aron Jac, Gafryw; Ysgol â'r marciau uchaf yn yr adran arlunio, ac yn ennill tarian her Cyngor Cymuned Llanwenog – Ysgol Dyffryn Cledlyn; Cwpan Her Blaencathal, am focs o gynnyrch gardd – Bessie Williams, Clyncoch, Cwrtnewydd; Pencampwr y babell; ac yn ennill cwpan her Malcolm Fuller – Eluned Davies, Bryniau, Dihewid.

Hoffai pwyllgor y sioe ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl y flwyddyn nesaf ar ddydd Sadwrn 15fed o Awst 2020 wrth i ni ddathlu 40 mlynedd y sioe.



LYN JONES

"At eich gwasanaeth"





- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn



01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL



Eisteddfod Rhys Thomas James Llambod

Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Ysgol Bro Pedr gan ddolch i'r Pennaeth, Jane Wyn, am gael defnyddio'r ysgol. Dyma Eisteddfod gyntaf Rhys Bebb Jones yn Gadeirydd a diolchodd yn ei anerchiad wrth agor yr Eisteddfod brynhawn Sadwrn 24 Awst i Delyth Morgans Phillips am ei harweiniad yn ystod y tair blynedd diwethaf. Meinir Ebbsworth, Prif Swyddog Addysg Cyngor Sir Ceredigion oedd y Llywydd a'i hanerchiad yn pwysleisio pa mor bwysig yw digwyddiadau fel yr Eisteddfod i gynnig cyfleoedd i feithrin doniau'r ifanc. Cafwyd cystadlu ardderchog ymhlith y cystadlaethau lleol a datblygodd yn ddiwrnod cofiadwy iawn i Meinir a'r teulu am i'w mab Twm Ebbsworth ennill Cadair y Bardd dan 25 oed. Seren Cariad Bowen enillodd y Tlws Ieuencid dan 25 oed ac yn seremoni lenyddol ola'r dydd Martin Huws enillodd y Goron. Disgyblion Ysgol Llanllwni ddawnsiodd i'w gyfarch gyda dawns wahanol iawn i'r ddawns flodau draddodiadol. Daeth cystadlaethau'r Sadwrn i ben gyda 'Sgen ti Dalent? Dros 16 oed a'r ddeuawd biano fuddugol gan 'Agnetha' ac 'Anni-Frid' yn swyno'r gynulleidfa a'r beirniaid.

Capel Soar oedd lleoliad Oedfa'r Eisteddfod fore Sul gyda'r Parchedig Gareth Morgan Jones yn dewis ei destun amserol o Lyfr Genesis i drafod cyflwr ein cymdeithas a'n byd. Seibiant wedyn hyd rhagbrofion Llais Llwyfan Llanbed yn Ysgol Bro Pedr yn y prynhawn gyda saith yn ymgeisio gerbron y beirniaid Euros Rhys Evans a Meinir Jones Parry. Y pump aeth yn eu blaen i gystadlu gyda'r hwyr am y brif wobr o £1,000 yn rhoddedig gan Dorian a Delyth a'u teuluoedd er cof am eu rhieni Gerwyn a Mary Jones, Landre, dau o hoelion wyth yr Eisteddfod hon, oedd Emyr Lloyd Jones, Llinos Haf Jones, Eiri Myfanwy Price, Elen Lloyd Roberts ac Erin Rossington. Arweiniwyd y noson yn gelfydd gan Rhiannon Lewis, ac Eiri Myfanwy Price ddaeth i'r brig gan ennill hefyd y Tlws yn rhoddedig gan Emlyn Davies a'r teulu. Enillydd cystadleuaeth geiriau'r emyn oedd John Meurig Edwards – daw cyfle yn 2020 i gyfansoddi tŷ i'w eiriau grymus a chyfoes. Llywydd y noson oedd Elsi Jones, Llanbedr Pont Steffan, gynt o Landdewi Brefi. Cyfeiriodd yn ei hanerchiad difyr a hwyliog, gan ddyfynnu o'r nofel 'Rhys Lewis', at bwysigrwydd ein diwylliant Cymraeg a Chymreig i gynnal cymdeithas iach a ffyniannus.

Gwariodd y dydd Llun fel y Sadwrn a'r Sul yn ddiwrnod heulog braf ond ni wnaeth hynny gadw'r tyrfaoedd draw o ERTJ! Agorwyd yr Eisteddfod gan Faer a Maeres Llanbedr Pont Steffan, y Cynghorydd Rob a Mrs Delyth Phillips a'u mab annwyl Tryfan. Cyfeiriodd y Maer yn ei anerchiad at bwysigrwydd yr Eisteddfod, yr holl doniau a'r cyfraniad at ddiwylliant ac economi'r dref a'r fro a chawsom flas ar gymaint mae'r ardal yn ei olygu iddo ef a'i deulu. Eifion Williams, Cwmann (siop Crown Stores gynt) oedd y Llywydd a'i anerchiad yn un hwyliog a didwyll. Cyfeiriodd at y diffyg stondinau gwerthu ffrwythau yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan annog Elin Jones AC a Chadeirydd Pwyllgor Gwaith Ceredigion 2020, i newid y sefyllfa yn Nhregaron! Cynigiodd hefyd newid enw'r Eisteddfod o ERTJ i ERBJ gan gyfeirio at enw'r Cadeirydd! Iwan Bryn James enillodd y Gadair a Karina Wyn Dafis y Fedal Ryddiaith a braf iawn cael teilyngdod yn y ddwy gystadleuaeth. Enillwyr rhai o'r prif gystadlaethau llwyfan nos Lun oedd Barry Powell (Her Unawd), Elin Haf Jones (Prif Gystadleuaeth Llefaru), Llinos Haf Jones (Alaw Werin), Joy Cornock (Lieder / Cân Gelf), Zara Evans (Darn Dramatig / Monolog) ac Emyr Lloyd Jones (Unawd Gymraeg a'r Unawd Sioe Gerdd). Roedd y cystadlu yn y Celf a Chrefft hefyd o safon uchel ac Ysgol Bro Pedr, yn arbennig Caryl Bulman, Fflur Meredith a Maisie Wright, yn dod i'r brig. Cafwyd hefyd 'Talwrn y Beirdd' bywiog a chystadluol yn Festri Capel Shiloh nos Lun, ac i roi blas i chi o'r cystadlu yno, dyma limrig buddugol Dorian Morgan:

Ar fore Nadolig eleni
Aeth Boris i chwilio am dwrci
Doedd dim un yn sbâr
Dim chopen na iâr
Neith sosej y tro i'r hen gwrci.

Cewch y canlyniadau ar Trydar gan longyfarch PAWB ar eu llwyddiant gydol y penwythnos. Edrychwn ymlaen at ERTJ 2020 gan ddolch yn fawr iawn am gefnogaeth y cystadleuwyr, cyfeilyddion, beirniaid, noddwyr, llywyddion, y gynulleidfa a'r tîm gweithgar a diflino o swyddogion a gwirfoddolwyr a sicrhodd Eisteddfod dda arall yn 2019.

Rhys Bebb Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith



Alwena Mair Owen o Llanllwni yn ennill y darian am Unawd 10-12 a'r darian am lefaru 10-12 oed gyda Elin Williams, Tregaron (chwith) yn ail ar y llefaru ac yn ail ar yr unawd roedd Megan Wyn Morris, Talyllchau.



Karina Wyn Davies, Llanbryn-mair enillodd y Fedal Ryddiaith.

Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnwydd enillodd pedwar cystadleuaeth ynghyd â'r "Rose Bowl" yn yr adran Agored dydd Llun.



Ela Mablen Griffiths Jones, Cwrtnwydd yn gyntaf ar y llefaru a'r unawd 8-10 oed. Daeth Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni yn ail ar yr unawd ac yn drydydd ar y llefaru. Daeth Trystan Bryn o Bumsaint yn drydydd ar yr unawd a Megan Fflur Morgan, Drefach yn ail ar y llefaru.



Ysgol Llanllwni yn perfformio'u dawns yn y Seremoniau.

Yn y Gegin gyda Gareth



Braf bod nôl yn y gegin wedi hoe yr Haf, gan obeithio eto am Ha' bach Mihangel ym mis Medi. Un peth sy'n dynodi fod yr Hydref yn dod yw gweld mwya duon ar y perthi. Mae casglu mwya duon yn rhoi pleser i mi bob tro ac yn rhoi cyfle imi feddwl am rysetiau creadigol i'w defnyddio.

Cofiwch fanteisio ar y mwya ym mis Medi. Y mae yna hen ofergoel yn dweud mai dim ond ym mis Medi y dylech chi gasglu mwya, gan fod y diafol wedi poeri arnynt erbyn mis Hydref! Felly nawr amdani.

Mwynhewch y mwya,

Gareth

Salad mis Hydref

Cynhwysion

2 afal wedi sleisio

Dresin

1 winwnsyn coch wedi sleisio

50 g cnau ffrengig wedi eu darnio

200 g o 'lardons' bacwn

1 x pecyn 150 g 'puy lentils' wedi coginio

100 g mwya duon

2 llwy fwrdd olew

1 llwy de mwstard

1 llwy fwrdd fineg

1 llwy fwrdd o fêl

1 pecyn letus

Dull

1. Chwipiwech gynhwysion y dresin.

2. Ffrîwech y winwns, bacwn a'r afalau am tua 7 munud

3. Ychwanegwech y lentils, a chynheswech, cyn plygu'r mwya atynt.

4. Gosodwech y dail letus o amgylch y plat a'r llenwad yn y canol.

Sgeintiwch y cyfan â'r dresin a'r cnau.

Tiramisu Tymhorol

Cynhwysion

200 ml coffi

300 ml hufen chwipio

2 llwy fwrdd siwgwr mân

½ llwy fwrdd coco

100 g almwnau wedi eu tafelli a'u tostio

150 ml gwirod, - e.e. amaretto / brandi

500 g caws mascarpone

200 g mwya duon

250 g 'sponge fingers'

Dull

1. Cymysgwch y coffi a'r gwirod.

2. Gosodwech y mwya mewn sosban gyda ½ y siwgwr, a choginiwech i greu compot trwchus. Gadewch i oeri.

3. Chwipiwech yr hufen, a phlygwch i'r Mascarpone ac ychwanegwech 1 llwy fwrdd o'r siwgwr.

4. Dipiwech y bisgedi spwng yn y coffi, a leiniwech waelod dysgl. Rhowch ½ y ffrwythau ar eu pen, haenen arall o fisgedi, gweddill y ffrwythau, a gorffen gyda'r hufen ar ben y cyfan. Gosodwech yn yr oergell am tua 4 awr, cyn ei sgeintio â choco a'r cnau.

'Cacen Cwmwl'

Cacen ysgafn a blasus heb unrhyw fraster

Cynhwysion

600 g afalau melys wedi'u plicio a'u sleisio

1 llwy de sinamwn

100 g siwgwr mân

1 llwy fwrdd powdwr pobi

1 lemwn

2 ŵy a 2 wyn ŵy

125 g blawd plaen

100 ml llaeth

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180 C, Ffan 160. Nwy 4. Iwch a leiniwech dun 23cm.

2. Cyfunwech yr afalau a'r lemwn.

3. Chwipiwech sest y lemwn, y siwgwr a'r 2 felyn ŵy nes eu bod yn drwchus.

4. Rhidyllwech y blawd, y powdwr pobi, sinamwn a phinsied o halen i mewn, yna plygwch y llaeth i'r gymysgedd.

5. Chwipiwech y gwyn-ŵy, a phlygwch i'r gymysgedd gyda hanner yr afalau.

6. Arllwyswech i dun, a rhowch y mwya a'r afalau drosodd. Pobwch am 40–50 munud.

7. Gadewch yn y tun am tua 15 munud cyn ei ryddhau, yna sgeintiwch â siwgwr eisín.

Llanwnnen

Chwaraeon

Llongyfarchiadau i Meirion Lloyd, Esgair Inglis ar ennill ei fest cyntaf i Gymru ym Mhencampwriaeth Ysgolion Prydain yn Abertawe yn ystod mis Gorffennaf ac am berfformiad ardderchog yn neidio 12.30m yn y Naid Driphlyg. Da iawn ti. Pob hwyl i ti i'r dyfodol.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Aled Wyn Thomas, 1 Sycamore Teras am ennill dwy wobwr gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn ddiweddar – yn yr Unawd Lieder a'r Unawd Tenor 25 oed a throsodd a chael cyfle i gystadlu am y Rhuban Glas. Pob lwc yn y dyfodol.

18 oed

Ar ddiwedd mis Awst dathlodd Heledd Jones, 4 Bro Llan ei phen-blwydd yn 18 oed. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

Dymuniadau da

Pob dymuniad da i Dylan Iorwerth, Pen-y-nant dros yr wythnosau nesaf yma – rydym i gyd yn meddwl amdanoch.

Capel y Groes

Estynnir croeso cynnes i bawb i ymuno â ni mewn oedfa arbennig 'Sul Pawb Ynghyd' ddydd Sul, Medi'r 15fed am 3.00 o'r gloch. Bydd yr oedfa yng ngofal y Parch. Cen Llwyd.

CYSTADLEUAETH!

Am gyfle i ennill CD newydd sbon y Welsh Whisperer

'Cadw'r Slac yn Dynn'

atebwch y cwestiwn heriol yma:

Pa liw ydy cortyn bêl y Welsh Whisperer?

Gyrrwch atebion a'ch cyfeiriad i WelshWhisperer@live.com neu Swyddfa'r Gogledd, 4 Pantglas, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3BG



welshwhisperer.cymru

Neuadd y Coroniaid,
Pumsaint
yn cyflwyno

John ac Alun a Clive Edwards

Llywydd y Noson:
Mr Eirian Davies, Llanwrda
Nos Sadwrn, 16eg Tachwedd
I ddechrau am 8 o'r gloch
Pris Mynediad - £12.00

*Elw'r noson tuag at
West Wales Prostrate a'r Neuadd*
Noddwyr y noson –
Ieuan a Huw, Llwyndiraiad



**ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.**



CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gŵen gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Cwmsychpant



Llwyddiant yn y Sioe Frenhinol

Osian Williams, Pencwm yn ennill y wobr gyntaf gyda'i fantam gwryw *Gold Dutch* yn y Sioe Frenhinol.

Cydymdeimlo

Cofiw'n am Olive Davies, Arosfa, yn dilyn colli ei chwaer yng nghyfraith, Gwyneth Havard a oedd yn byw yng Nghwm Aur, Llanybydder. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda chi a'r teulu yn eich profedigaeth.

Capel y Cwm

Cafwyd noson o Farbeciw yng Nghapel y Cwm yn ystod mis Gorffennaf ac fe fu yn dra llwyddiannus a phawb wedi joio mas draw. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y noson.

Barnu Stoc

Llongyfarchiadau i Beca Jenkins, Hafan y Cwm ac aelod o C.Ff.I. Pontsian ar ddod yn 3ydd yn barnu Gwartheg Duon Cymreig o dan 16 oed yn y Sioe Frenhinol.

Bu sawl un arall yn llwyddiannus mewn gwahanol gystadlaethau barnu stoc mewn sioeau lleol yn yr ardal – da iawn chi i gyd.

Priodas Aur

Dathlodd Eurwyn a Mary Davies, Maesnewydd eu Priodas Aur ddiwedd mis Gorffennaf. Gobeithio i chi fwynhau'r diwrnod yng nghwmni eich teulu.

Ŵyr bach

Ddiwedd mis Gorffennaf ganwyd mab bach, Tomi George i Trystan a Gemma Potter yn Llambod. Llongyfarchiadau i mam-gu a thad-cu, sef Mair a Brian Potter, Rhoslyn.

Priodas Dda

Yn Eglwys Dewi Sant, Bangor Teifi ddydd Sadwrn Gŵyl y Banc, fe unwyd mewn glân briodas Catrin Jones, Talarwen a Rhydian James o Faesllyn. Llongyfarchiadau i chwi eich dau a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Treialon Cŵn Defaid a Sioe Cwmsychpant 2019

Cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid a Sioe Flynyddol Cwmsychpant a'r Cylech ar gaeau Waun, Rhydowen ddydd Sadwrn, Awst y 10fed trwy garedigrwydd Mrs. Ella a Mr. Vernon Davies.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn unwaith yn rhagor ac eleni roedd yr elw yn mynd tuag at waith Nyrsys Stoma. Codwyd swm sylweddol a fydd yn cael ei ddefnyddio i brynu nwyddau a fydd yn cynorthwyo'r nyrsys yn eu gwaith.

Dechreuodd diwrnod y sioe yn gynnar gyda'r treialon a bu'r cŵn defaid yn rhedeg o'r bore bach tan yr hwyr. Unwaith eto eleni roedd y babell yn

orlawn o gynnyrch amrywiol ac roedd y cyfan o safon uchel. Er gwaethaf y glaw cynhaliwyd mabolgampau i'r plant yn y bore a hynny mewn lle clyd a chynnes yn y babell ac mi wnaeth nifer helaeth ennill rhubanau. Yn ogystal cafwyd arddangosfa o hen beiriannau a oedd yn werth i'w gweld. Braf eleni hefyd oedd gweld amrywiaeth o stondinau yn gwerthu cynnyrch o safon ar gaeau'r sioe; diolch yn fawr iddynt am eu cefnogaeth.

Ein llywyddion eleni oedd Eryl a Mary Price, Esgaireinon, Penffordd a braf iawn oedd cael eu cwmni trwy gydol y dydd. Siaradodd Eryl ar ran y ddau a soniodd am y fraint yr oedd wedi ei chael o dderbyn y swydd i fod yn llywydd ar y sioe. Mawr hefyd yw ein diolch iddynt am eu rhodd haelionus i'r coffrau.


Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant blynyddol llwyddiannus gyda Sion Jenkins a Dewi Jones wrth y llyw. Unwaith yn rhagor gwerthwyd amrywiaeth helaeth o bethau a gyfrannwyd gan gefnogwyr y sioe a chodwyd arian sylweddol i'r elusen.

I gloi'r diwrnod penigamp cafwyd adloniant yng nghwmni Dai Hands a'i ddisgo. Braf oedd gweld pawb o bob oed yn dawnsio i'r disgo tan oriau mân y bore. Unwaith eto eleni cynhaliwyd sesiwn ddisgo i'r plant yn gyntaf ac yna cystadleuaeth Taclo'r Tasgau. Cystadleuaeth i dimau o bedwar aelod oedd Taclo'r Tasgau a gwelwyd nifer fawr o dimau yn rhoi cynnig ar dacro'r pedair tasg a roddwyd iddynt ar y noson. Roedd y tasgau yn cynnwys troi peiriant cneifio, cneifio, troi darn o bren gyda phlocyn arno ac un arall lle roedd gofyn i ferch yfed point. Cafwyd llawer o hwyl gyda'r babell dan ei sang yn gweiddi a chefnogi eu timoedd. Enillwyr y tasgau eleni oedd CFfl Llanwenog sef Sioned Davies, Heilyn Thomas, Meleri Davies a Gethin Morgan. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Dyma restr o enillwyr y dydd:

Treialon Cŵn Defaid - Cenedlaethol Agored - Irwel Evans, Ystrad Meurig. Nofis Cenedlaethol Agored - John Price, Pysgah. Agored De Cymru - Kevin Evans, Libanus. Nofis Agored De Cymru - Kevin Evans, Libanus.

Gwinoedd - Megan Richards, Aberaeron. Cyffeithiau - Wendy Davies, Penffordd. Coginio - Wendy Davies, Penffordd. Gwaith Llaw - Sally Rees, Llanarth. Crefft - Carwyn Davies, Penffordd. Ffyn - Mr Fox, Cwrtnewydd. Ffotograffiaeth - Katy Mayes, Cwrtnewydd. Arlunio Plant - Bl. 2 ac o dan - Wil Williams, Cwmsychpant. Bl. 3 a 4 - Gwenno Mills, Rhydowen. Bl. 5 a 6 - Sian Jenkins, Capel Dewi. Adran Plant - Cyfnod Sylfaen - Alaw Freeman, Llanon. Cyfnod Allweddol 2 - Fflur Morgan, Drefach. 12 ac o dan 17 - Lleucu Rees, Penffordd. Adran Blodau - Erika Davies, Llanwnnen. Celfyddyd Blodau - Erika Davies, Llanwnnen. Cynnyrch Gardd - Bessie Williams, Cwrtnewydd. Hen Beiriannau - Eirian Evans, Llanwnnen. Adran Geffylau - Pencampwr yr Adran Geffylau - Alis Evans, Talgarreg. Pencampwr yr Adran Geffylau i Blant - Alis Evans, Talgarreg. Adran Ddefaid - Pencampwr Croes-frid - Morgans, Glwydwern. Taleb gwerth £25 - Morgans, Glwydwern.



Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i'r beirniaid, y stiwardiaid, y noddwyr a phawb arall am bob cyfraniad a chymorth er mwyn sicrhau sioe lwyddiannus arall.

Llanfair Clydogau

Diwrnod Hwyl

Trefnwyd Diwrnod o Hwyl gan bwyllgor Eisteddfod 2020 Llanfair a Chellan i ddod â'r ddau bentref yn nes at ei gilydd a chodi arian tuag at Eisteddfod Ceredigion yr un pryd. Hwyl a sbri oedd y bwriad a dyna beth gawson ni. Dechreuodd pethau gyda gemau i'r plant dan ofal Alwen, Lillian ac Alex ar gaeau Llanfair Fawr a bowlïo matiau byr yn y neuadd dan ofal Y Clwb Bowlïo. Da oedd gweld cynifer o blant wedi dod ynghyd ac yn mwynhau yr holl gemau oedd wedi eu trefnu iddynt. Yna cafwyd awr o seibiant i bawb gael mwynhau lluniaeth wedi ei baratoi gan ferched y pentref. Diolch i bawb a fu yn rhan o drefniadau Llanfair ac i Arwyn am gael defnyddio'r cae.



Ar ôl hanner dydd symudodd y cyfan lawr i Gellan i barhau gyda'r hwyl yn y ganolfan a'r tu allan. Cafwyd ras o un pentref i'r llall gyda Sally a Jenny a'r ci yn ennill. Da iawn i chi'ch dwy a'r ci! Ar y ffordd i'r ganolfan roedd Penny a Gabriel wedi trefnu cystadleuaeth dargeddi yn eu cartref yn Llwyn Onn a bu hwn yn boblogaidd iawn. Lawr yn y ganolfan roedd gemau i'r plant, a Dwynwen Dyfodol wedi trefnu a dod â chelfi i'r plant ieuanc gael chwarae. Yn y neuadd roedd cyfle

i chwarae dartiau dan ofal Lyn a Brynmor, Awelon, Llanfair gyda llawer wedi mwynhau'r cystadlu. Cafwyd tipyn o sbri hefyd yn cymryd rhan yng ngêm Sefydliad y Merched. Amser te roedd hufen ia a mefus ar werth yng ngofal Ann Williams, Cnwc y Fallen a the prynhawn yng ngofal Sefydliad y Merched, Cellan dan arweiniad Maggie a Wendy. I gloi'r diwrnod cafwyd barbeciw yng ngofal Delyth, Geraint, Rhys a'u criw a noson o fiwsig a dawnsio gyda'r diddanwr Jules o Abertawe, gyda diolch eto i Dwynwen am ei chyfraniad hael at y costau hyn. Diolch i Tom Conti a Julian Branston am gyfrannu hufen ia a fu'n boblogaidd iawn.

Yn ogystal â'r rhai rydym wedi eu henwi roedd llu o rai eraill wedi gweithio a chyfrannu o flaen a thu ôl i'r llenni i wneud y diwrnod yn un hollol lwyddiannus a hyfryd gyda phawb wedi mwynhau'r profiad.

Arddangosfa Gelf



Cafwyd arddangosfa lwyddiannus iawn eleni eto gyda llu o bobol wedi galw i fwynhau edrych, prynu a chymdeithasu dros baned a chacen. Pleser mawr oedd croesawu tri artist newydd i arddangos eu gwaith gyda ni eleni sef Robert Blaney o Bontsian, a Lisa a David Hardy, Caeglas, Heol Llanfair. Diolch i bawb a ddaeth i'r arddangosfa. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

Sioe Flynyddol Llanfair

Daeth llu o bobol ynghyd unwaith eto i gystadlu a chefnogi ein sioe ar ddydd Llun Gŵyl y Banc. Buom yn ffodus eleni eto i gael diwrnod braf a hyfryd oedd gweld pobol hen ac ifanc yn cymdeithasu yn yr haul. Yn y neuadd roedd bwrlwm o baratoadau cyn i'r beirniadu ddechrau.

Diolch i'r holl stiwardiaid am eu hymdrechion trylwyr. Tra roedd hyn yn digwydd roedd bwyd blasus wedi ei baratoi i'r beirniaid a'r stiwardiaid gan Joyce Dickson, Paula Barker ac Eleri Davies. Pleser oedd gweld cynifer wedi cystadlu yn y gwahanol ddosbarthiadau ond siomedig eleni oedd y cystadlu yn yr adran celf uwchradd ac oedolion. Enillydd y cwpan i'r plentyn â'r pwyntiau uchaf oedd Elliw Williams. Enillydd y cwpan her parhaol am y marciau uchaf yn yr adran gelf i oedolion oedd Sara Bee. Enillydd cwpan her parhaol am y ci gorau yn y sioe oedd Nat, ci defaid Mark Wakelin. Mae Mark yn ffermio tir Llanfair Fawr. Enillydd tarian Oswyn Lewis am goginio

oedd Meinir Miller ac enillydd cwpan her parhaol er cof am Mrs Margaret Jones, Glanhelen am y dyn â'r pwyntiau uchaf am goginio oedd Martin Quan. Enillydd y cwpan am y pwyntiau uchaf yn y sioe oedd Helen Jones, Llwynieir.

Llywydd y dydd oedd y Cyngorwr Odwyn Davies, fferm Olmarch Isaf, Llangybi. Mae cysylltiadau agos gyda Odwyn â phentref Llanfair gan iddo gael ei eni yng Nghefenfoelallt, gyda'i fam-gu a'i dad-cu yn byw yn Hendrebant. Diolch o galon iddo am ei rodd hael iawn tuag at y sioe.

I gloi diwrnod arbennig o bleserus cafwyd barbeciw â'r bwyd wedi ei baratoi a'i goginio gan ferched a dynion y pentref. Diolch i bawb a gyfrannodd y bwyd. Yn y neuadd roedd cyfle i wrando a mwynhau miwsig a chaneuon y Golden Gekos.

Trefnwyd y sioe gan y pwyllgor dan arweiniad y prif swyddogion sef Dai Jones, Llanfair Fach, y cadeirydd, Sally Leech, Tanyresgair, yr ysgrifennydd a Glennis Gratwick, y trysorydd. Diolch i lu o bobol eraill am eu cyfraniad gweithgar tuag at lwyddiant ysgubol y sioe.

Graddio

Llongyfachiadau i Ffion Quan, Sŵn yr Afon ar dderbyn gradd baglor mewn gwyddoniaeth, B.Sc mewn daearyddiaeth ddynol o Brifysgol Caerdydd. Pob lwc iddi i'r dyfodol. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu i gyd.

Diolch

Dymuna Ffion Quan, Sŵn yr Afon ddiolch am y dymuniadau da a gafodd adeg y graddio. Hefyd hoffai ddiolch am y cardiau a'r anrhegion gafodd wrth ddathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain yn ddiweddar. Gwerthfawrogyd y cyfan yn fawr iawn.

Canolfan Deuluol Llambed

Canolfan Dulais, Heol Pontfaen, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7BN
01570 423 847

Rhif elusen gofrestredig: 1101351 Ebst:lampeterfamilycentre@gmail.com

Annwyl bawb

Mae Canolfan Deuluol Llambed yng Nghanolfan Dulais ar hyn o bryd ond yn anffodus, oherwydd bod yr adeilad yn cael ei ddimchwel ar gyfer prosiect adnewyddu mawr, bydd yn rhaid i ni symud i gartref newydd dros dro.

Elusen yw'r Ganolfan Deuluol, ac mae'n dibynnu'n helaeth ar arian a roddir i'n galluogi i gynnig y gwasanaeth hwn yn y gymuned.

Mae Canolfan Deuluol Llambed ar agor 5 diwrnod yr wythnos i unrhyw deulu sydd â phlant dan 11 oed. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim ac yn agored i bawb, ac mae'n darparu gwasanaethau i deuluoedd mewn amgylchedd croesawgar lle na chaiff neb ei farnu. Ein nod yw datblygu'r sgiliau meithrin sydd gan deuluoedd, rhieni a gofalwyr, er mwyn gwella lles eu plant a chyfleoedd eu plant mewn bywyd. Rydym yn cynnig amrywiaeth o sesiynau drwy gydol yr wythnos, sy'n cynnwys grŵp i fabanod, clwb cinio, sesiynau iaith a chwarae i rieni a phlant bach, sesiynau chwarae rhydd, gweithgareddau crefft, a sesiynau codi pac lle byddwn yn mynd allan am dro ac yn ymweld â mannau diddorol yn y gymuned leol. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau Cymraeg er mwyn helpu teuluoedd sydd wedi symud i'r ardal yn ddiweddar i integreiddio yn y gymuned.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Ganolfan wedi datblygu'n wasanaeth cymorth i deuluoedd ac fe'i ddefnyddir yn helaeth. Mae'n adnodd gwych sydd o fudd i'r gymuned, a gellir gweld hynny drwy'r berthynas agos â Hafan Deg, Cylch Meithrin Carreg Hirfaen a'n Hymwelydd Iechyd lleol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynorthwyo 92 o deuluoedd.

Mae angen gwneud rhywfaint o waith ar ein cartref newydd dros dro er mwyn sicrhau ei fod yn addas ac yn ddiogel i'n teuluoedd. Felly, rydym yn gofyn yn daer am help ar ffurf rhoddion ariannol, gwaith gwirfoddol, deunyddiau y gall pobl eu rhoi i ni ac arbenigedd y gall unrhyw adeiladwr ei rannu â ni. Mae'n rhaid i ni adael ein safle presennol erbyn 1 Medi, felly mae amser yn brin iawn! Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd diogel, cartrefol a chroesawgar i'n teuluoedd a'n gofalwyr, ac o gael help gan y gymuned bydd modd i ni droi ein cartref newydd yn hafan ddiogel.

Byddem yn ddiolchgar iawn pe baech yn cysylltu â ni os gallwch gynnig help o unrhyw fath. Mae croeso i chi gysylltu â ni drwy ffonio'r rhif uchod neu anfon e-bost.

Diolch yn fawr,
Elin Vaughan-Miles (Cydlynydd)

Côr Meibion Cwmann a'r Cylch



Dyma lun o rai o aelodau'r Côr yn diddannu'r tyrfaoedd yn Sioe Amaethyddol Llanbed a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 6ed Gorffennaf. Y maent yn canu o flaen eu stondin gyda'r Maer y Cyngorydd Rob Phillips.

Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gefnogi'r Côr yn eu Noson Mefus a Hufen a gynhaliwyd yng Nghlwb Bowlio Llanbed nos Wener 28ain Mehefin. Cyfrannodd nifer o ddoniau ifanc lleol at lwyddiant y noson, sef y gantores Elin Fflur, yr offerynwyr Ianto, Rhodri a Dafydd o 1st Inversion a'r trympedwr ifanc Bryn Williams. Diolch yn fawr i'r criw gweithgar fu'n cynorthwyo gyda pharatoi'r lluniaeth ac yn arbennig i Dai am ddarparu'r mefus a'r hufen blasus. Cyflwynir elw'r noson i gefnogi Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 trwy Gronfa Apel Lleol Llanbed.

Daw cyfle arall i fwynhau doniau'r Côr mewn Cyngerdd Mawreddog yng nghwmni Ellen Williams, Kees Huysmans a phlant Ysgol Carreg Hirfaen yn Neuadd Sant Iago, Cwmann, nos Wener 6ed Medi am 7.30 o'r gloch. Llywydd y noson yw Mr Twynog Davies a bydd elw'r noson er budd Cymorth Cristnogol a'r Côr. Os am docyn, cysylltwch gyda'r Côr.

Y mae'r Côr bob amser yn falch i groesawu aelodau newydd. Dewch felly yn denoriaid a baswyr i'n hymarferion yn Festri Capel Brondeifi, Llanbed ar nosweithiau Mercher am 8.00 o'r gloch. Cewch gwybodaeth bellach ar ein gwefan: <http://www.corcwmann.btck.co.uk/>

Sefydliad y Merched

Taith ddigol oedd ein cyfarfod ar nos Lun, Gorffennaf 1af. Gadael Heol Hathren, teithio trwy Lamed, troi am Dregaron ac i Langeitho a chyrraedd Gerddi Ysgoldy Cwrt ar gyrion Llangeitho. Fe'n croesawyd ni yn gynnes iawn gan Brenda Woodley. Dywedodd fod y gerddi yn un o'r 'National Garden Scheme for Charity' a soniodd fod na dros dair mil o erddi yng Nghymru a bod un deg tri yng Ngheredigion. Symudodd i'r ardal rhyw bymtheg mlynedd yn ôl. Roedd yn noson braf wrth i ni gerdded o amgylch a gweld ôl oriau o waith cynllunio a phum pwll wedi eu cynllunio rhwng Ebrill a Hydref 2018. Diolchodd Gwyneth am noson ddiddorol iawn. Ar ôl cael awyr iach a thipyn o gerdded roedd pawb yn barod am rywbeth i'w fwyta erbyn cyrraedd 'Cegin Haul' ger Abermeurig a chafwyd gwledd arall. Diolchodd Gwyneth am y croeso a'r bwyd blasus. Cafwyd cyfarfod busnes byr i ddilyn a Mary yn y gadair. Diolchodd i Gwyneth am drefnu'r noson. Dywedodd Elma ei bod wedi cael amser da yn yr AGM yn Bournemouth.

Enillwyr Misol Clwb 125 Neuadd Sant Iago Gorffennaf 2019

1. Tony Hall, Glanaber, Cwmann, 75. 2. Jennie Bracher, Glyndu, Cwmann, 99. 3. Rhydian Lloyd, Penybont, Pumsaint, 31. 4. Ceinwen

Evans, Fferm Felin-Fach, Cwmann, 28. 5. Bethan Lewis, 18, Heol-Hathren. Cwmann, 54. 6. Aled Evans, Hafod-Y-Gân, Cwmann, 39. 7. Pat Jones, Glanhathren, Cwmann, 106.

Enillwyr Misol Clwb 125 Pwyllgor Pentref Awst 2019

1. Mattie Williams, Ddeunant Hall, Cwmann, 70. 2. Berian Herberts, Dolfor, Cwmann, 84. 3. Lorina Edwards, Wernview, Cwmann, 131. 4. Muriel Davies, 2, Nant-Y-Glyn, Cwmann, 93. 5. Wynzie Richards, Maesteifi, Cwmann, 134. 6. Lena Williams, 39, Heol-Hathren, Cwmann, 22. 7. Veronica James, Caeralaw, Heol-Y-Fedw, Cwmann, 126.

Enillwyr Misol Clwb 225 Pwyllgor Pentref Cwmann Awst 2019

1. Eurig Davies, Manglas, Parc-Y-Rhos, Cwmann, 81. 2. Veronica James, Caeralaw, Cwmann, 78. 3. Gwyn Lewis, 18, Heol-Hathren, Cwmann, 9. 4. Dyfed a Meinir Evans, Gwerlllyn, Llambled, 97. 5. Glenys Morgans, Rhydown, Cwmann, 46. 6. Doreen Harries, 21 Heol-Hathren, Cwmann, 131. 7. Tomos ac Elen, Felindre Uchaf, Cwmann, 137.

Deunaw oed

Pen-blwydd hapus i Mari Lewis, Pencrug, Cari Jones, Cae'r Nant a Mari Lewis Tŷ Cerrig ar ddathlu eu pen blwyddi yn 18 oed yn ystod mis Awst. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu a phob lwc yn y gwahanol golegau ym mis Medi.

Graddio

Llongyfarchiadau hefyd i Tomos Rhys, Araul ar ennill BA 2.1 mewn Cymraeg a Newyddiaduraeth o Brifysgol Caerdydd; Sara Evans, Llys y Coed ar ennill BSc 2.1 mewn Chwaraeon ac Addysg Gorfforol o Brifysgol Met Caerdydd a James Edwards, Glynview ar ennill BA 2.1 mewn newyddiaduraeth o Brifysgol Caerdydd. Dymunwn bob llwyddiant i chi i'r dyfodol.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Fiona a Huw, 3 Heol Hathren ar enedigaeth Evelyn Grace; ac i Ffion a Phil, Proskairon, Heol Hathren ar enedigaeth Alffi Alun.

Llwyddiant Arholiadau

Yn ystod mis Awst, derbyniodd nifer o ieuenctid y pentref eu canlyniadau TGAU a Lefel As/A a chafwyd canlyniadau arbennig. Dymuniadau gorau i bob un ar eu cam nesaf, boed yn ddychwelyd i'r ysgol, mynd i'r coleg neu'r brifysgol neu'n mentro i'r byd gwaith.

Rygbi

Llongyfarchiadau mawr i Dafydd Jones, Hendai ar gael ei ddewis yn rhan o garfan rygbi gorllewin y Scarlets dan 16 a dymuniadau gorau iddo am y tymor.

Pêl droed

Bu Gwenllian Llwyd Jones, Croesor yn ffodus iawn i gael ei derbyn yn rhan o garfan rhanbarthol De Cymru dan 15 am y tymor 2019-20. Golyga hyn fod yn rhaid iddi deithio ddwy waith yr wythnos i Ystrad Mynach ger Caerffili i hyfforddi a chwarae gêmâu. Llongyfarchiadau iddi a phob lwc iddi am y tymor.


Ffair Ram

Cofiwch gefnogi Ffair Ram ddydd Sadwrn, Medi 14eg ar gae'r pentref. Mae modd lawrlwytho'r rhaglen o'r wefan www.ffairram.btck.co.uk.

Bethel Parc-y-rhos

Ar y 7fed o Orffennaf sefydlwyd 3 diacon newydd sef Mary Davies, Gwynfor Lewis a Dylan Lewis. Llongyfarchiadau a phob bendith iddynt.

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Bethel ar y 9fed o Hydref am 7 o'r gloch a gwasanaethir gan y Fon Beti Griffiths. Croeso cynnes i bawb.



Derbyn Medal

Eirios Thomas, MBE yn wreiddiol o Gwmann, yn derbyn Medal am Wasanaeth Hir ar ôl 41 mlynedd yn drefnydd Ffederasiwn Ffermwyr Ifainc Sir Gâr yn y Sioe Frenhinol.



Graddio

Llongyfarchiadau mawr i Steffan Roberts, Caeronnen ar ennill Gradd Meistr Dosbarth Cyntaf mewn Peirianeg Mecanyddol o Brifysgol Abertawe a dymuniadau gorau iddo ar ei swydd gyntaf fel Peiriannydd pŵer a niwclear gyda chwmni Atkins ym Mryste.



Priodas

Guto Gwilym, yn wreiddiol o Gwmann, yn dilyn ei briodas gyda Rhys Taylor o Bontypridd yn ddiweddar. Mae'r ddau bellach yn byw yng Nghaerdydd. Dymuniadau gorau.

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwŷinau

* Arlwyd ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherfferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776

neu 07715 740777

www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns WEISH GIFTS

Llanbedr Pont Steffan

COTRODDION A CHERDIAU CYMREIG PERSONOL AC UNIGRYW WEDI EU GWNEUD A LLAW YN EIN GWETHDY

DELWCH I YMWELD A'N ADRIAN BRIDODASAU NEWYDD

01570 423884

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Pontfaen, Llambled Ffôn: 423300 Ffacs: 423223 mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur



Yswiriant tŷ/ cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorwyr Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Taith Gorffennaf

Aeth taith Gorffennaf i'r gogledd i Henllan ger Llanefydd i ymweld â ffatri Llaeth y Llan sydd yn cynhyrchu iogwrt ac yn eiddo i Mr a Mrs Gareth Roberts a'r teulu.

Dechreuwyd y fenter ar lefel fechan ac yna ehangu, ac ar ôl rhai blynyddoedd ehangu'n fwy i'r adeilad modern lle mae'r cyhoedd erbyn hyn yn medru gweld trwy ffenestri y broses o weithio'r iogwrt o'r dechrau i'r diwedd. Eglurwyd y broses yn drylwyr gan ddechrau yn y tanciau llaeth a gorffen wrth weld yr iogwrt yn cael ei bacio ar balet yn barod i fynd allan i bob rhan o'r wlad.

Yr oedd y cyfan yn dechrau gydag Elinor sy'n gweithio yn y labordy ac yn rhoi gwybodaeth am faint o fraster o phrotin ac ati sydd yn y llaeth. Wrth wrando ar Mr Roberts, hawdd deall bod Elinor yn uchel ei pharch yn ei gwaith ac â chyfrifoldeb mawr ar ei hysgwyddau. Wyres i Pamela ac Emlyn a Margaret ac Ifan o Gwrtnewydd yw Elinor.

Aethom wedyn am bryd o fwyd a oedd yn ein disgwyl gan Mrs Roberts. Ar ôl gwledda ar fwyd blasus ac ardderchog a digon ohono, diolchodd ein cadeirydd i Mr a Mrs Roberts a'r teulu am brynhawn diddorol ac am y croeso gwresog a gafwyd. Yna, aeth Mrs Roberts â ni allan i'r ardd sy'n odidog a hardd.

I fewn i'r bws wedyn a theithio yn ôl i Aberystwyth am swper blasus yn y Marine.

Diwrnod bendigedig a diolch i Brenda a Sulwen am drefnu.

Taith Mis Awst

Bore gwlyb oedd bore Mercher y pedwerydd ar ddeg o Awst a ninnau ar daith i Ganolfan Calon Lân Mynydd Bach ar gyrion Abertawe. Ym mynwent y Capel mae gweddillion yr emynydd Daniel James [Gwyrosydd] yn gorwedd. Fe a gyfansoddodd yr Emyr 'Calon Lân' emyn mwya' poblogaidd Cymru. Ar ôl gadael yr addoldy aethom yn ein blaenau i Amgueddfa Abertawe lle gwelsom lawer o grochenwaith Abertawe. Ymhen rhyw awr penderfynwyd mynd ymlaen i'r Mwmbwls, ac

erbyn hyn yr oedd y glaw wedi cilio a heulwen ysgafn uwch ein pennau a phrynhawn o'n blaen i ymlacio'n llwyr ger y môr ac aroglaui gwymon yn ein ffroenau. Tua phump o'r gloch aeth pawb yn ôl i'r bws a mynd ymlaen at Langennech am swper a phawb wedi mwynhau diwrnod addysgiadol a phleserus iawn.

Rhoddodd Mary Thomas ein cadeirydd ddiolch i Yvonne ac Eifion am drefnu ac i Graham am ein tywys yn ddiogel fel arfer ac hefyd am y swper blasus a gafwyd yn nhafarn y Bont.

Bydd taith mis Medi ar yr unfed ar ddeg o'r mis. Enwau i Jane Hones ar 480332.

Deunaw oed

Dathlodd Sion Davies, Yr Hendre ei ben-blwydd yn 18 oed ar Awst 1af. Dymuniadau gorau i ti.

Wyres fach newydd

Llongyfarchiadau i Emyr a Gillian Jones, Meysydd ar enedigaeth wyres fach, Cara Non, merch fach i Gwawr a Rhys yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd fel teulu.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Elen Morgan, Rhydyfelin am basio Gradd 3 ar y piano gyda chlod o dan nawdd y 'London College of Music.'

Llongyfarchiadau hefyd i Fflur Morgan am basio Gradd 1 gydag anrhydedd gan gael marciau llawn yn y profion clust. Da iawn y ddwy ohonoch.

Cydymdeimlo

Yn ystod diwedd mis Awst bu farw Gareth Davies, Dolgader yn dilyn salwch byr. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda'i briod Doreen, y plant - Dorian, Geraint a Meinir a'r wyrion a'r holl gysylltiadau teuluol i gyd.

Diolch

Dymuna Mattie James, Cae Llan ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar.

Gwellhad Buan

Mae teulu, ffrindiau a chymdogion William James, Cae Llan am ddymuno gwellhad buan iawn iddo.

Diolch

Dymuna Meryl, Louise, Haydn a'r teulu, Geryteifi ddiolch i bawb am ei caredigrwydd yn eu profedigaeth ar ôl colli Emyr. Diolch yn fawr i bawb.

CYMANFA'R CYNHAEAF

bois y gyda ifach

Eglwys - St Tysul
Llandysul

Sadwrn **26/10/2019**
£10 y tocyd **7:30yh**

lluniaueth ysgafn hanner amser
Elw'r noson - croenfa trwsio'r organ bîll ac elusen Bois y Giffach
Tocynnau o Siop Ffab neu'r Ficerdy 01559 363874

Cwrtnewydd

Rygbi

Llongyfarchiadau i Carwyn Davies, Coedlannau Fach ar ennill Chwaraewr y Flwyddyn i dîm Rygbi dan 15 oed Ceredigion.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Ela Mablen, 2 Fronddu ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn ennill y wobr 1af am Lefaru dan 12oed. Hefyd bu hithau a'i chwaer Nanw Melangell yn llwyddiannus iawn yn ystod pen wythnos Eisteddfod Rhys Thomas James yn Llambled adeg Gŵyl Banc Awst.

Hefyd llongyfarchiadau i Huw Evans, Alltgoch ar ennill

cystadleuaeth ysgrifennu llythyr achwyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion nos Iau, 3ydd Hydref am 7.00y.h. Pregethir gan Parch. Aled Lewis, Tregaron. Croeso cynnes i bawb.

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Elgan Jones, Gwêl y Cledlyn yn teimlo'n well erbyn hyn yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn ystod mis Awst. Cofion cynnes atoch.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacenau
Dathliadau
Partion

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk

Carpedi

Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

TEIARS
HUW LEWIS

TYRES

TEIARS
BRECYS
BATRIS
GWACAWYR

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035

✉ mwniciffwnci@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Gwneud dipyn o sioe ohoni!

O bob drwg, mi ddaw rhyw dda ... ac felly yr oedd hi yn fy hanes i. Methu â mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol (heblaw am rhyw awr neu ddwy) ac, oherwydd hynny, cael y cyfle i fynd i sioeau Cwmsychbant a Gorsgoch.

Wnaeth hynny ddim fy rhwystro i rhag sylwi ar lwyddiannau lleol yn Llanrwst, o rai fel Ela Mablen ac Aled Llanwnnen ar y canu, er enghraifft, neu Huw Alltgoch, dywedwch, yn yr adran lân. Mae'n werth darllen ei lythyr cwyn yn y Cyfansoddiadau a cheisio dyfalu tybed lle cafodd o'r syniad i sgrifennu am dair ysgol leol yn cau.

Ond roedd Huw yn Sioe Cwm hefyd, yn ennill ar y defaid Llanwenog, a dw i wedi dyfalu llawer i ffermwyr o feirdd fel fo tybed be sy'n cyfri' fwy' – ennill efo cerdd neu gipio'r cwpan am gynnrych y caeau. A thydi'r ddwy grefft ddim mor wahanol â hynny i'w gilydd ... dewis a dethol geiriau; dewis a dethol stoc.

Crefft oedd un o nodweddion amlyca'r ddwy sioe – o drefniannau blodau i waith coed rhyfeddol o gain, o luniau'r plant i ffa oedd fel saeth o syth. A pheidiwch â sôn am y cacennau. Roedd gan Ewrop fynyddoedd menyrs erstalwm, mynyddoedd o sbynjis a bara brith sydd yng nghanol Ceredigion.

Roedd yna ambell debygrwydd amlwg rhwng y ddwy sioe a'r Eisteddfod, gan gynnwys y tywydd gwyntog a'r bygythiad o law yn ystod Sioe. Ac mae'r trefniadau parcio'n ddigon tebyg hefyd ond fod digonedd o dractors wrth law yn y sioeau ... pe bai eu hangen.

Yr hyn sy'n rhyfeddol ydi bod digwyddiadau fel hyn yn cael eu trefnu mor effeithiol ers cyhyd a degawdau o wybodaeth ac arfer yn cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth; mi fyddai ein cyndeidiau ni flynyddoedd yn ôl yn adnabod yr hyn oedd yn digwydd.

Cerdded rownd

Er hynny, yr un peth mwya' cyffredin rhwng y Brifwyl fawr a'r ddwy sioe fach oedd y broses o gerdded o gwmpas ... proses ofnadwy o ara'. Bob yn ail gam, roeddech chi'n dod ar draws rhywun yr oedd rhaid oedi wrth eu hochr am gyfarchiad a chydig o glonc.

Y gwahaniaeth, wrth gwrs, oedd mai pobol leol oedd yn cyfarch ei gilydd yn y sioeau; cymdogion a chydabod, ffrindiau a pherthnasau – agos a phell. Nid cyfarch hen wynebun unwaith y flwyddyn fel yn yr Eisteddfod ond parhau efo sgysiaid sy'n digwydd ar hyd y flwyddyn.

Petaech chi wedi estyn llinynnau rhwng pobol a'i gilydd o fewn y ddwy babell i ddangos y cysylltiadau rhyngddyn nhw, a phe baech chi wedi gwneud hynny mewn gwahanol liwiau – coch i berthyn, falle, gwyrdd i gydweithiwr, gwyn i ffrind ac yn y blaen – mi fydddech chi erbyn y diwedd wedi creu carthen amryliw, lachar.

Ac mi fyddai gwedd y garthen yn dynn. Fflachiadau o wres sydd yna mewn Eisteddfod Genedlaethol; yn sioeau Cwm a'r Gors, roedd yna deimlad o gynhesrwydd yn codi o'ch cwmpas chi. A'r Gymraeg yn iaith naturiol bron yr holl ymwneud.

Fentra' i ddim dweud a oes yna gythrel cabej yn bod mewn sioe, fel cythrel canu yn y Brifwyl, ond mae'n siŵr ambell dro fod rhywun yn teimlo cam. Mi all hyd yn oed hynny fod yn arwydd o gryfder, fod pobol yn poeni digon i deimlo i'r byw am bethau.

Maen nhw'n dweud bod mynd i Eisteddfod Genedlaethol yn rhoi hwb i'r batris Cymraeg; mae digwyddiadau fel y sioeau bach yn gwneud yr un peth. Hyd yn oed ynghanol mewnlifiad ac efo pob math o fygythiadau, maen nhw'n dangos bod yna gryfder.

Yr Eisteddfod ydi un o brif ddigwyddiadau ein diwylliant ni; mae'r rhan fwy' o bawb yn cydnabod hynny. Ond mae diwylliant yn fwy na chanu ac adrodd a llên; mae hefyd yn arddio, yn ffermio, yn grefft ac yn gyfeillachu.

Fyddai'r diwylliant Cymraeg ddim yr un peth heb yr Eisteddfod; na heb y sioeau bach.

PHILIP JONES
FINANCIAL SOLUTIONS
Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
& Busnes • Offer Amaethyddol
ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
Masnachol • Cyfleusterau
Amddiffiniad Offer Newydd a
Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
07757 668339 / 01544 340562
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

Gwasanaethau Coed Llambled



Cae Celyn, Heol Llanfair,
Llambled, SA48 8JX
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddolio â
phob math o breblemau gyda choed.

W.D. Lewis
a' Fab

Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broned Stores
Pumsaig, Llanwrda
Tel: 01558 650215



COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO
AA
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciaid lleni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

WILLIAMS
& **BOURNE**
CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.


Annwyl Ffrindiau,

Shw mae? Wel mae'r haul wedi bod yn gwenu arnom yn ystod gwyliau'r haf eleni. Beth fuoch chi'n ei wneud yn ystod y gwyliau? Wel, mi fues i yn adeiladu cestyll tywod ar draeth Cwmtedu, es i am dro i'r goedwig ger Llanybi, am drip i'r pwll nofio a chystadlu yn yr eisteddfod fawr yn Llanbed a chael sawl picnic gyda'm ffrindiau. Gwyliau bendigedig! Ond nawr mae'n amser mynd nôl i'r ysgol a chyfle i weld hen ffrindiau a chwrdd â ffrindiau newydd.

Bu'r postmon yn brys iawn wrth ddod â'r lluniau ond y llun taclusaf a'r un mwyaf lliwgar oedd un Eli-May, Penrhiw, Prengwyn. Clod uchel i Sara Fflur Pugh o Ffair Rhos. Da iawn bawb! Diolch yn fawr iawn i chi gyd am gystadlu a llongyfarchiadau mawr iawn i ti Eli-May!

Nawr beth am fynd ati i liwio llun o'ch diwrnod cyntaf nôl yn yr ysgol? Cofiwch ei ddychwelyd i mi cyn dydd Llun, Medi 23ain. Mwynhewch eich liwio!

Ta ta tan toc.




Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC, dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio symudol ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladdau
- Digwyddiadau Maes
- Peiriant Rhostio Mochyn ar gael

Bar symudol ar gyfer digwyddiadau allanol boed yn fawr neu'n fach



Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plentyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor arllanoll i chi?

Os ydych wedi collu'r gwasanaeth hon ac osogwch aralltad parhau'n ddig, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda throes 27 o ffynnyddion a broffid, gallaf gynnig cyngor ar:

Cyflwr • Buddsoddi • Yswiriant • Ddiogel • Cyflwr a gyfer ymddol

Taliadau treth • Rheoli Ystad • Ailgylidwr • Yswiriant Cartref

Cysylltwch â mi am gynig arllanoll apalwygrychok

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partners, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com

true potential
wealth management

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad
Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Bag Siopa Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

			6		2	7	5
9		3	7				
		6					
		2		5	6		
	9			1			3
			9	2		6	
					9		
				8	3		1
8	5	7		9			

Swdocw Gorffennaf

Llongyfarchiadau i:

Sian Blake o Gorsgoch,

a diolch i bawb arall am

gystadlu: Glenys Davies,

Llanybydder; Hugh

Evans, Llanybydder;

Avril Williams, Cwmann;

John Bevan, Felinfach;

Richard Evans, Olmarch; Dai Jones,

Alltyblaca ac Eurwyn Davies, Llanybydder.

6	9	3	4	5	7	8	2	1
2	8	5	6	1	9	7	4	3
1	7	4	2	3	8	9	6	5
3	6	8	7	4	5	1	9	2
4	2	9	1	6	3	5	8	7
5	1	7	9	8	2	4	3	6
7	3	6	5	9	4	2	1	8
9	5	1	8	2	6	3	7	4
8	4	2	3	7	1	6	5	9

Cweithgareddau Lleol a Chenedlaethol



Aled Wyn Thomas, 1 Sycamore Teras, Llanwnnen am ennill dwy wobwr gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst – yn yr Unawd Lieder a'r Unawd Tenor 25 oed a throsodd.



Ela Mablen Griffiths-Jones, Fronddu, Cwrtnewydd a enillodd y wobwr gyntaf yn y Llefaru dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn ddiweddar.



Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychbant a'r Cylch, dydd Sadwrn 10 Awst. Enillwyr y cwpanau a'r medalau gyda Llywyddion y Sioe, Eryl a Mary Price, Esgereinon, Penffordd. Hefyd yn y llun mae'r nyrs Stoma, Iris Williams. Ers i'r Sioe ddechrau 39 mlynedd yn ôl codwyd cyfanswm o £151,000 at achosion da. Bydd holl elw Sioe 2019 yn mynd tuag at waith nyrsys Stoma.



Buddugwyr Sioe Gorsgoch gyda'r llywyddion Tony a Mair Hatcher.

LHP

- CYFRIFWYR
- ARCHWILWYR
- YMGYNGHORWYR

CYFRIFWYR
SIARTREDIG
ICAEW

81 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AB



Enillwyr Sioe C.Ff.I. Llanllwni ar ddydd Llun Gŵyl y Banc.

CYFRI
CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lán gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305
07974 422 305

Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen



Unawd dan 6 oed [cyf] - 1. Nanw Griffiths-Jones, Cwrtnewydd. 2. Sara Lewis, Mydroilyn. 3. Elliw Grug Davies, Drefach.
Llefaru dan 6 oed [cyf] - 1. Nanw Griffiths-Jones. 2. Elliw Grug Davies. 3. Sara Lewis.



Unawd 6 – 9 oed [cyf] - 1. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni. 2. Delun Aur, Cellan. 3. Efa Lloyd Jones, Llambod. 4. Tirion Marged Tomos, Pencarreg.



Llefaru 6 – 9 oed [cyf] - 1. Delun Aur Ebenezer. 2. Gwennan Lloyd Owen. 3. Tirion Marged Tomos. 4. Aron Lewis, Mydroilyn.



Llefaru 9 - 12 oed [cyf] - 1. Ela Mabl Griffiths Jones, Cwrtnewydd 2. Beca Elan Ebenezer, Cellan 3. Alwena Mair Owen, Llanllwni 4. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig 5. Swyn Efa Tomos, Pencarreg
Canu 9 – 12 oed [cyf] - 1. Ela Mabl Griffiths Jones 2. Alwena Mair Owen. 3. Annie Grug. 3. Trystan Bryn.



Fflur Meredith a Maisey Wright, Ysgol Bro Pedr yn rhannu'r wobwr am y marciau uchaf yn yr adran Celf a Chrefft.



Canu Emyn 1. Ela Mabl Griffiths Jones, Cwrtnewydd 2. Beca Elan Ebebezer, Cellan 3. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni (absennol o'r llun) 4. Trystan Bryn, Pumsaint. 4. Alwena Mair Owen, Llanllwni (absennol o'r llun) 5. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig (absennol o'r llun) 5. Fflur Meredith, Llanbed.



Deuawd dan 12 oed a dan 21 oed
 1. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig ac Alwena Mair Owen, Llanllwni



Enillydd y Gadair oedd Iwan Bryn James o Aberystwyth, Pennaeth Is-adran Cadwraeth y Llyfrgell Genedlaethol.

Lluniau yn arbennig i Clonc gan Ifan Meredith a Tim Jones.



Sara Elan Jones a Lowri Elen Jones yn ennill Cwpan y ddeuawd emyn agored. Cafodd y ddwy wobrau di-ri yn ystod y penwythnos.